

# Tirlithriad Tylorstown Cam 4

Datganiad Dylunio, Mynediad a  
Chynllunio

Tachwedd 2021

## Cynnwys

|      |  |    |
|------|--|----|
| 1.   | Cyflwyniad a Chynnwys  | 1  |
| 1.1  | Pwrpas   | 1  |
| 1.2  | Y Gymraeg  | 1  |
| 1.3  | Cefndir a Rhesymeg y Prosiect  | 1  |
| 1.4  | Sgrinio a Chwmpasu'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol                  | 3  |
| 1.5  | Pwy sy'n berchen ar y tir  | 4  |
| 1.6  | Rhaglen  | 4  |
| 1.7  | Strwythur a Chynnwys y Cais  | 4  |
| 2.   | Ystyriaethau yn ymwneud â'r Dyluniad                                   | 7  |
| 2.1  | Cyflwyniad   | 7  |
| 2.2  | Datblygu'r Datrysiad a Ffefrir   | 7  |
| 2.3  | Ymgynghoriad hyd yma   | 9  |
| 2.4  | Crynodeb o'r Dyluniad a Ffefrir  | 10 |
| 2.5  | Datblygu'r Dyluniad Manwl  | 12 |
| 2.6  | Lleoliad a Chapasiti   | 13 |
| 2.7  | Damweiniau a Thrychinebau Mawr (gan gynnwys Sefydlogrwydd<br>Llethrau) | 13 |
| 2.8  | Daeareg, Asedau Deunyddiol a Gwastraff                                 | 14 |
| 2.9  | Yr Amgylchedd Dŵr a Pherygl Llifogydd                                  | 15 |
| 2.10 | Draenio  | 16 |
| 2.11 | Ecoleg a Chadwraeth Natur  | 17 |
| 2.12 | Coed   | 18 |
| 2.13 | Tirwedd ac Effeithiau Gweledol   | 19 |
| 2.14 | Treftadaeth Ddiwylliannol  | 20 |
| 2.15 | Ansawdd Aer  | 21 |
| 2.16 | Sŵn  | 21 |
| 3.   | Ystyriaethau yn ymwneud â Mynediad                                     | 22 |
| 3.1  | Cerddwyr, Beicwyr a Marchogion   | 22 |
| 3.2  | Mynediad i'r Cyhoedd - Cerbydau  | 22 |
| 3.3  | Cynnal a Chadw a Monitro   | 23 |
| 3.4  | Cludiant   | 23 |
| 4.   | Adolygu a Gwerthuso'r Polisi Cynllunio                                 | 25 |
| 4.1  | Introduction   | 25 |
| 4.2  | Hanes Cynllunio  | 25 |
| 4.3  | Adolygiad o'r Polisi Cynllunio Cenedlaethol                            | 25 |
| 4.4  | Adolygiad o'r Polisi Cynllunio Lleol                                   | 28 |
| 5.   | Casgliad   | 35 |
| 5.1  | Yr Angen am y Datblygiad   | 35 |
| 5.2  | Ystyriaethau Perthnasol  | 35 |

# 1. Cyflwyniad a Chynnwys

## 1.1 Pwrpas

1.1.1 Paratowyd y datganiad yma gan Redstart yn gweithredu ar ran Cyngor Bwrdeistref Rhondda Cynon Taf (RhCT). Mae'n rhan o gais cynllunio a gafodd ei gyflwyno ar gyfer gwaith i hwyluso tynnu'r mwyafrif o'r deunydd sy'n weddill o Domen Uchaf Llanwynno i safle newydd ger dwyrain tomen Old Smokey, gan ddefnyddio'r gweddill ar gyfer adfer rhannau o broffil y llechwedd a'r adferiad trwy adfywiad naturiol y ddau safle. Mae'r adroddiad yn ymgorffori elfennau o ddatganiad dylunio a mynediad a datganiad ategol.

## 1.2 Y Gymraeg

1.2.1 Mae'r adroddiadau a'r cynlluniau canlynol sy'n rhan o'r cais yma hefyd ar gael yn Gymraeg:

- Datganiad Dylunio, Mynediad a Chynllunio (y ddogfen yma);
- Crynodeb Annhechnegol y Datganiad Amgylcheddol; a
- Cynlluniau Trefniant Cyffredinol

## 1.3 Cefndir a Rhesymeg y Prosiect

### Tirlithriadau Tylorstown

1.3.1 Ddydd Sul 16 Chwefror 2020, achosodd Storm Dennis i domen uchaf Llanwynno fethu uwchben pentref Tylorstown, gan achosi tirlithriad mawr yn ogystal â digwyddiad eilaidd llai.

1.3.2 Y canlyniad oedd bod oddeutu 60,000m<sup>3</sup> o ddeunydd y tomen pwll glo wedi llithro i lawr y bryn ac wedi llenwi tua hanner gwaelod y cwm o droed y llethr tuag allan, a hynny ar ongl isel iawn a'r malurion wedi'u dosbarthu'n eang, gan lenwi sianel Afon Rhondda Fach a dargyfeirio ei chwrs i ochr orllewinol gwaelod y cwm. Dechreuodd yr afon a gafodd ei dargyfeirio erydu glan orllewinol yr afon gan greu oddeutu 5 metr o wyneb ansefydlog fertigol a chan fygwth tanseilio maes parcio gorlif Canolfan Hamdden Rhondda Fach ger pen y lan.

1.3.3 Fe achosodd y deunydd a lithrodd hefyd ddifrod sylweddol a thorri prif garthffos o dan y ganolfan hamdden i lawr yr afon o droed y tirlithriad, gan gwmpo nifer o goed yn ei sgil a gorchuddio prif bibell ddŵr o dan hen reilffordd sy'n cael ei ddefnyddio fel llwybr teithio llesol di-fodur.

1.3.4 Cafodd gwaith brys ei gyflawni i fynd i'r afael â'r bygythiadau a'r difrod o'r tirlithriad, a chafodd dau gais cynllunio eu cymeradwyo ar gyfer storio'r deunydd dros dro ar ddau safle ar wahân. Mae'r safleoedd yma bellach wedi'u sefydlu ac maen nhw wedi cwblhau Camau 1, 2 a 3 o'r broses adfer. Mae cais arall ar gyfer proffil a defnydd parhaol y safleoedd yma'n cael ei baratoi, ar y sail y bydd y deunydd a gafodd ei adael ar y ddau safle yma'n cael ei gadw yno.

### Y Cyd-destun cenedlaethol

1.3.5 Yn fuan ar ôl y tirlithriad yn Tylorstown, cyfarfu Prif Weinidog Cymru ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru Llywodraeth y DU i sefydlu tasglu ar y cyd i asesu, fel mater o flaenoriaeth a brys, statws tomenni glo yng Nghymru ac adolygu'r fframwaith polisi a deddfwriaethol presennol sy'n ymwneud â rheoli tomenni glo segur.

1.3.6 Yn dilyn hynny, sefydlwyd y Tasglu Diogelwch Tomenni Glo i gyflawni'r gwaith yma ar y cyd â phartneriaid allweddol megis yr Awdurdod Glo, Awdurdodau Lleol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) a Chyfoeth Naturiol Cymru.

1.3.7 Ar hyn o bryd, mae'r Tasglu wedi trefnu adolygiad cychwynnol o 2,456 o domenni glo

segur yng Nghymru, yn bennaf yng nghymoedd De Cymru. Yn yr adolygiad cyntaf yma, aseswyd y tomenni yn nhermau effeithiau posibl tirlithriad, cwmp neu golli cyfanrwydd strwythurol; felly, ni wnaethant farnu pa mor beryglus yw'r tomenni neu pha mor debygol ydyn nhw i gwmpo ond yn hytrach edrychon nhw ar effeithiau digwyddiadau o'r fath. Dosbarthwyd y tomenni i bum categori risg. Roedd y rhai yn y ddau gategori uchaf (C a D) yn cael eu hystyried i beri risg uwch. Mae 327 o domenni yn y categorïau uwch yma yng Nghymru. Mae 75 (23%) o'r rhain yn RhCT, gyda'r nifer fwyaf o unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru o'r tomenni categori D uchaf.

- 1.3.8 Mae archwiliadau pellach o'r tomenni categori uwch wedi ceisio nodi eu gofynion cynnal a chadw a'r amserlenni angenrheidiol ar gyfer cwblhau'r gwaith yma. Gofynnwyd i awdurdodau lleol sicrhau bod unrhyw waith angenrheidiol a nodwyd o'r arolygiadau yn cael ei wneud ac mae hyn wedi arwain at nifer o raglenni gwaith yn dechrau eisoes.
- 1.3.9 Ystyriodd y Tasglu hefyd a yw'r ddeddfwriaeth gyfredol yn addas i'r diben, mewn perthynas â chyfundrefnau arolygu a chynnal a chadw, yn enwedig yng ngoleuni effeithiau cynyddol y newid yn yr hinsawdd. Y casgliad oedd bod angen diwygio a gofynnwyd i Gomisiwn y Gyfraith gynnal adolygiad a fydd yn cael ei gyflwyno yn gynnar yn 2022.
- 1.3.10 Yn rhan o'r broses, cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith amlinelliad cychwynnol o drefn newydd bosibl i reoli'r mater mewn ffordd gynhwysfawr. Ymgynghorwyd ar hyn yn eu papur '*Rheoleiddio Diogelwch Tomenni Glo yng Nghymru*' - *Papur Ymgynghori* '(Comisiwn y Gyfraith, 9 Mehefin 2021). Yn y papur, ystyriodd fater defnyddiau amgen ar gyfer y tomenni a dyfynnodd gyfraniadau gan y CLILC a soniodd am "*national habitat creation programme which looks to mitigate the environmental loss caused by works done. Coal tips could be regarded as a bank of land for biodiversity. NRW said the same about the carbon capture and the biodiverse potential of coal tips. Coal recovery is no longer regarded as a good option.*" (para. 761)
- 1.3.11 Trafododd y papur ymhellach y prosiectau adfer ar gyfer y tomenni hynny y mae'n rhaid eu trin, roedd hyn yng nghyd-destun safleoedd ag ychydig iawn o werth economaidd, os o gwbl, os cânt eu hadennill. Nododd ym mharagraff 10.136: "*Sustainable development principles under the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 and Environment (Wales) Act 2016 could guide policy choices around tips. These principles include the need to consider the long-term public good. ...The sustainable development principles can work to re-shape concepts of economic value in the context of the climate crisis. As we discussed earlier in this paper, one option would be to use reclaimed tips for carbon capture or for the protection of biodiversity.*"

### **Bioamrywiaeth ac Adfer Tomenni Glo**

- 1.3.12 Diogelwch pobl ac eiddo fydd prif bryderon unrhyw gynllun adfer, fodd bynnag, ar yr un pryd mae'n hanfodol, lle mae angen gwaith, bod y tomenni'n cael eu defnyddio yn y fwyaf buddiol yn dilyn unrhyw waith sy'n ofynnol a bod y defnydd yma'n cael ei ystyried yn gynnar yn y broses o ddylunio unrhyw waith arfaethedig. Mae modd i'r agenda cynaliadwyedd ehangach ddarparu cyd-destun ar gyfer un defnydd buddiol o'r fath.
- 1.3.13 O'r herwydd, cynigir y bydd y gwaith yn Tylorstown yn treialu dull adfywio naturiol sy'n ceisio dangos bod modd adennill tomenni sydd wedi aflonyddu a / neu eu hadleoli fel hyn a darparu buddion cadarnhaol i fioamrywiaeth a'r gymuned.

- 1.3.14 Mae Tomen Uchaf Llanwynno ac Old Smokey eisoes mewn safleoedd cydnabyddedig o bwysigrwydd cadwraeth natur lleol, senario a fydd yn nodweddiadol o lawer o domenni sydd angen triniaeth ledled y wlad. Sail y cynigion adfer yw lliniaru, rheoli a gwella ecolegol, ynghyd â'r amcan ehangach o wella draeniad a mynediad ac ymgysylltu cyhoeddus anffurfiol. Bydd y ddau safle yn destun cynigion adfywio naturiol gan gynnig y potensial i hyrwyddo a gwarchod cynefinoedd pwysig ac eiconig y Cwm mewn ffordd a fydd yn sicrhau'r buddion ecolegol a chymdeithasol mwyaf posibl. Yn ogystal, cynigir sefydlu gwarchodfa natur newydd ar hen safle Old Smokey sy'n gysylltiedig â dargyfeirio'r llwybr troed cyhoeddus ar hyd ei berimedr.
- 1.3.15 Os bydd yn llwyddiannus, bydd y prosiect yn darparu templed ar gyfer prosiectau adfer tomenni tebyg eraill. Bydd hefyd yn cyfrannu gwybodaeth at fentrau rheoli lleol a rhanbarthol eraill.

#### **Rheoli Deunyddiau - Cod Ymarfer CL:AIRE**

- 1.3.16 Yn rhan o'r broses o gyflawni'r aildefnydd buddiol arfaethedig o'r deunydd, bwriedir dilyn y Diffiniad o Wastraff: Cod Ymarfer (Cod Ymarfer Diffiniad o Wastraff (DoW CoP)). Mae hyn yn darparu dull cymeradwy rheoliadol i symud deunydd wedi'i gloddio a ddatblygwyd gan CL:AIRE, sefydliad uchel ei barch a sefydlwyd i ysgogi adfywio tir a ddefnyddiwyd o'r blaen yn y DU. Mae hyn yn darparu fframwaith archwiliadwy ar gyfer y gwaith trwy ddatblygu Cynllun Rheoli Deunyddiau i ddangos cydymffurfiaid â'r Cod Ymarfer fel bod modd rheoli'r deunydd at ddefnydd terfynol buddiol ac o'r herwydd nid yw'r deunydd yn dod o fewn cwmpas y Rheoliadau Gwastraff.

#### **Cam 4 Tylorstown - Gwaith Arfaethedig**

- 1.3.17 Mae'r cais, yn ddarostyngedig i'r adroddiad yma, yn ymwneud â gweddillion deunydd y pwll glo sy'n dal i fod ar ochr y bryn - rhan o Domen Uchaf Llanwynno. Gyda'i gilydd, caiff y gwaith yma'i gyfeirio ato fel Cam 4 y broses adfer. Ystyrir, am resymau diogelwch, na ddylai mwyafrif y deunydd yma aros yn ei leoliad presennol ac mae angen ei symud i fan lle nad oes risg o dirlithriad pellach.
- 1.3.18 Prif amcan Cam 4 yw atal deunydd rhag llithro yn y dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys symud deunydd pwll glo o Domen Uchaf Llanwynno (y safle rhoddwr) i safle derbynnydd newydd ger Tomen Tylorstown, a elwir hefyd yn domen Old Smokey. Bydd hefyd caniatáu ar gyfer gwaith sefydlogi ac adfer i safle Tomen Uchaf Llanwynno a'r deunydd sy'n weddill.
- 1.3.19 Cyfanswm arwynebedd safle'r cais yw 30Ha. ac mae prif elfennau'r cais ynddo fel a ganlyn:
- Tynnu oddeutu 195,000m<sup>3</sup> o ddeunydd sy'n weddill o fewn Tomen Uchaf Llanwynno ar ben y llechwedd, trefniadau draenio diwygiedig a thirlunio'r ardal ar ôl ei dynnu er mwyn sefydlogi'r domen;
  - Bydd gwaith ail-broffilio i'r domen uchaf yn cael ei gynnal gan ddefnyddio oddeutu 35,000m<sup>3</sup> o'r deunydd tirwedd yn y fan a'r lle (h.y. llyfnhau "powlen" y tirlithriad cyfredol i'r lefelau arfaethedig, heb fod angen storio deunydd dros dro), ynghyd â gwaith draenio a thirlunio cysylltiedig;
  - Cludo oddeutu 160,000m<sup>3</sup> o'r deunydd ar hyd tramffordd segur i gael ai adael ar y safle derbynnydd cyfagos;
  - Ehangu'r dramffordd bresennol er mwyn caniatáu mynediad i loriau a pheiriannau rhwng y safle rhoddwr a'r safle derbynnydd; a
  - Gwaith proffilio, draenio a thirlunio'r safle derbynnydd.

## **1.4 Sgrinio a Chwmpasu'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol**

- 1.4.1 Cyn cyflwyno'r cais yma, cafodd barn sgrinio ar Asesu'r Effaith Amgylcheddol ei

gyflwyno i RhCT fel yr awdurdod cynllunio lleol (ACLI) a oedd yn ystyried a fyddai'r gwaith a nodir uchod o bosibl yn cael effeithiau digon mawr ar yr amgylchedd i ddod o fewn cwmpas rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol ac yn ei gwneud yn ofynnol cyflwyno Datganiad Amgylcheddol.

- 1.4.2 Casgliad y cyflwyniad oedd, er nad yw'r cynllun arfaethedig wedi'i leoli o fewn 'ardal sensitif' fel y'i diffinnir gan y Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol<sup>1</sup>, mae'n uwch na'r trothwy maint ar gyfer datblygiad 'Atodlen 2' ac mae gan natur y cynnig y potensial i gael effeithiau negyddol sylweddol ar nifer o grwpiau derbynyddion. Felly, ystyriwyd bod angen Datganiad Amgylcheddol llawn, fel y rhagnodir yn y Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol, i fynd i'r afael yn iawn ag unrhyw faterion gweledol, tirwedd, geodechnegol ac ecolegol y gallai'r datblygiad eu cynhyrchu.
- 1.4.3 Ystyriodd yr ACLI y casgliad yma gan gytuno'n ffurfiol ag ef.
- 1.4.4 Yn dilyn y broses Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol cafodd Barn Gwmpasu ei gyflwyno i'r ACLI a oedd yn ystyried ac yn cynnig y pynciau neu'r 'Penodau' mwyaf priodol i'w cynnwys yn y Datganiad Amgylcheddol. Ymatebodd yr ACLI gyda chyngor pellach yn cadarnhau'r Penodau i gael sylw.
- 1.4.5 Roedd y Penodau'n ymdrin â'r canlynol:
- Ansawdd yr Aer,
  - Treftadaeth Ddiwylliannol ac Archeoleg,
  - Tirwedd ac Effeithiau Gweledol,
  - Bioamrywiaeth a Gwarchod Natur,
  - Daeareg, Priddoedd a Gwastraff,
  - Sŵn,
  - Yr Amgylchedd Dŵr a Pherygl Llifogydd,
  - Damweiniau Mawr a Thrychinebau,
  - Cerddwyr, Beicwyr a Marchogion ac
  - Effeithiau Cronnol.
- 1.4.6 Mae manylion llawn y broses sgrinio a chwmpasu wedi'u cynnwys a'u disgrifio yn y Datganiad Amgylcheddol sy'n cyd-fynd ag ef.

## 1.5 Pwy sy'n berchen ar y tir

- 1.5.1 Yr ymgeisydd sy'n berchen yr holl dir sy'n destun y cais o fewn ffin y llinell goch. Maen nhw hefyd yn berchen ar dir yn union i'r gogledd ac i'r de o ran ganolog y ffordd gludo. Maen nhw'n berchen ar safle Old Smokey a'r tir sy'n union o'i gwmpas. Lle mae'r safle'n cyrraedd gwaelod y cwm, mae'r tir sy'n union i'r gorllewin o ffin y safle yn eiddo i Railway Paths Ltd., sef llinell yr hen reilffordd.

## 1.6 Rhaglen

- 1.6.1 Yn amodol ar sicrhau'r holl gydsyniadau angenrheidiol, y dyddiad dechrau disgwyledig ar safle'r datblygiad yw Gwanwyn 2022 ac mae disgwyl i'r gwaith sylweddol bara am oddeutu 6 mis.

## 1.7 Strwythur a Chynnwys y Cais

- 1.7.1 Mae'r cais yn ceisio caniatâd cynllunio llawn ar gyfer y datblygiad; mae'r ffurflen gais

---

<sup>1</sup> Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017.

wedi'i hategu gan y rhestr ganlynol o ddogfennau a lluniadau.

- Datganiad Dylunio, Mynediad a Chynllunio (y ddogfen yma);
- Datganiad Grant Ardoll Seilwaith Cymunedol;
- Datganiad Amgylcheddol yn ymgorffori;
  - Barn Sgrinio a Chwmpasu ac Ymatebion,
  - Ffotograffau o'r Awyr,
  - Cyfrol o ffotogyfosodiadau,
  - Arolwg Cynefinoedd Cam 1 Estynedig,
  - Arolwg Planhigion Is,
  - Arolwg eDNA,
  - Arolwg Moch Daear,
  - Arolwg adar - bridio,
  - Arolwg Adar - gaeafu,
  - Strategaeth Lliniaru Bioamrywiaeth,
  - Adroddiad Astudiaeth ar Ffynonellau Rhagarweiniol,
  - Aseiad Risg Mwyngloddio Glo,
  - Cwmpasu Gwaith Ymchwilio'r Tir,
  - Logiau Dyfrdwl Gwaith Ymchwilio'r Tir,
  - Aseiad Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr,
  - Strategaeth Draenio,
  - Datganiad Trafnidiaeth,
  - Amserlen Lliniaru,
  - Adroddiad Sefydlogrwydd Llethrau, a
  - Amlinelliad o'r Cynllun Rheoli Amgylcheddol Gwaith Adeiladu.
- Datganiad Amgylcheddol - Crynodeb Annhechnegol;
- Arolwg Coed; ac
- Adroddiad Ymgynghori Cyn Ymgeisio (Noder, i'w gwblhau yn dilyn ymgynghoriad â'r cyhoedd).

1.7.2 Mae'r tabl isod yn cynnwys pecyn lluniadau'r cais.

**Tabl:1 Tabl 1: Pecyn Lluniadau'r Cais**

| Teitl y Lluniad   | Rhif/Dyddiad y Lluniad      |
|---|-----------------------------|
| Cynllun y Lleoliad  | GC3613-RED-61-RSC-DR-C-0001 |
| Trefniant Cyffredinol - Ail-broffilio Tomen (Safle Rhoddwr) | GC3613-RED-61-RSC-DR-C-0002 |
| Trefniant Cyffredinol - Safle Derbynnydd                    | GC3613-RED-61-RSC-DR-C-0003 |
| Trawstoriadau Ail-broffilio'r Domen - 1 o 5                 | GC3613-RED-61-RSC-DR-C-0004 |
| Trawstoriadau Ail-broffilio'r Domen - 2 o 5                 | GC3613-RED-61-RSC-DR-C-0005 |
| Trawstoriadau Ail-broffilio'r Domen - 3 o 5                 | GC3613-RED-61-RSC-DR-C-0006 |
| Trawstoriadau Ail-broffilio'r Domen - 4 o 5                 | GC3613-RED-61-RSC-DR-C-0007 |

| Teitl y Lluniad                             | Rhif/Dyddiad y Lluniad      |
|---|-----------------------------|
| Trawstoriadau Ail-broffilio'r Domen - 5 o 5 | GC3613-RED-61-RSC-DR-C-0008 |
| Trawstoriadau Safle Derbynnydd - 1 o 5      | GC3613-RED-61-RSC-DR-C-0009 |
| Trawstoriadau Safle Derbynnydd - 2 o 5      | GC3613-RED-61-RSC-DR-C-0010 |
| Trawstoriadau Safle Derbynnydd - 3 o 5      | GC3613-RED-61-RSC-DR-C-0011 |
| Trawstoriadau Safle Derbynnydd - 4 o 5      | GC3613-RED-61-RSC-DR-C-0012 |
| Trawstoriadau Safle Derbynnydd - 5 o 5      | GC3613-RED-61-RSC-DR-C-0013 |
| Safle Derbynnydd - Draenio                  | GC3613-RED-73-RSC-DR-C-0511 |
| Ail-broffilio'r Domen - Draenio             | GC3613-RED-73-RSC-DR-C-0501 |



## 2. Ystyriaethau yn ymwneud â'r Dyluniad

### 2.1 Cyflwyniad

- 2.1.1 Mae hwn, a'r adrannau Ystyriaethau yn ymwneud â Mynediad canlynol, yn ceisio egluro natur y datblygiad yn fwy manwl a rhoi sylwebaeth ar yr elfennau dylunio allweddol a'r penderfyniadau a ddylanwadodd ar y cynnig a gyflwynwyd.
- 2.1.2 Yr egwyddorion allweddol a gafodd eu mabwysiadu gan yr ymgeisydd wrth ddatblygu'r cynnig oedd dileu'r risg o unrhyw dirlithriadau pellach o domen uchaf Llanwynno ac adfer y llechwedd greithiog wrth leihau'r effaith ar yr amgylchedd a'i wella lle bo hynny'n bosibl.

### 2.2 Datblygu'r Datrasiad a Ffefrir

- 2.2.1 Trwy gydol y broses ddylunio, cafodd sawl opsiwn a dyluniad amgen eu hystyried nes cyrraedd y dyluniad a ffefrir. Roedd hon yn broses hanfodol wrth sicrhau bod yr ateb gorau posibl yn cael ei ddarganfod; roedd yn cynnwys ymgynghoriadau ag ystod eang o randdeiliaid statudol ac anstatudol gan fynd i'r afael â'r materion allweddol a godwyd gan y cynnig.
- 2.2.2 Roedd un o'r penderfyniadau allweddol cyntaf yn ymwneud â'r opsiwn strategol a ffefrir ar gyfer mynd i'r afael â phroblem tirlithriadau pellach posibl. Roedd hyn yn gofyn am asesiad o'r holl opsiynau posibl a oedd yn cynnwys proses asesu er mwyn dewis yr ateb gorau.
- 2.2.3 Mae *Pennod 5 - Dewisiadau Amgen a Ystyriwyd* o fewn y Datganiad Amgylcheddol cysylltiedig yn nodi'r sylwebaeth ar y broses. I grynhoi, roedd yr opsiynau strategol a nodwyd yn canolbwyntio ar y canlynol.


**Tabl 2: Opsiynau Strategol**

| Opsiwn   | Disgrifiad   |
|----------|--|
| Opsiwn 1 | Gwneud dim.  |
| Opsiwn 2 | Parhau'r strategaeth arolygu bresennol.  |
| Opsiwn 3 | Gadael tirffurf presennol y tomennydd fel maen nhw a chynnal gwaith atgyweirio lleol i'r draeniau a gwelliannau i broblemau presennol y cyrsiau dŵr sydd wedi erydu, ynghyd â gwaith arolygu parhaus.  |
| Opsiwn 4 | Ail-broffilio a sefydlogi'r domen uchaf trwy wrthgloddiau, gyda gwelliannau draenio i raddau helaeth fel yn achos Opsiwn 3.  |
| Opsiwn 5 | Symud Tomennydd Uchaf ac Isaf Llanwynno yn llwyr oddi ar y safle. Byddai hyn yn gofyn am symud oddeutu 450,000 metr <sup>3</sup> o ddeunydd a fyddai'n gofyn am fesurau lliniaru amgylcheddol sylweddol ar y safle. Byddai hefyd yn arwain at drafferthion sylweddol wrth gludo'r deunydd, effeithiau niweidiol ar gymunedau lleol (e.e. sŵn, llygredd, tagfeydd) a byddai ganddo ôl-troed carbon mwy, amserlen gyflawni hirach a chostau ariannol llawer yn uwch nag opsiynau eraill. |
| Opsiwn 6 | Symud y Tomenni Uchaf ac Isaf yn Llanwynno yn llwyr i safle derbynnydd cyfagos neu gerllaw heb orfod mynd â'r deunydd 'oddi ar y safle'. Byddai hyn yn   |

|         |   |
|---------|---|
|         | gofyn am symud oddeutu 450,000 metr <sup>3</sup> o ddeunydd a byddai angen mesurau lliniaru amgylcheddol sylweddol ar y safle rhoddwr a'r safle derbynnydd.   |
| Opsiw 7 | Symud yr holl ddeunydd ansefydlog neu a allai fod yn ansefydlog o domen Uchaf Llanwynno oddi ar y safle, gan adael y Domen Isaf sefydlog yn ei le. Byddai hyn yn gofyn am symud oddeutu 160,000 metr <sup>3</sup> o ddeunydd, a byddai'n gofyn am rywfaint o fesurau lliniaru amgylcheddol ar y safle. Byddai hefyd yn arwain at drafferthion sylweddol wrth gludo'r deunydd, effeithiau niweidiol ar gymunedau lleol (e.e. sŵn, llygredd, tagfeydd) a byddai ganddo ôl-troed carbon mwy, amserlen gyflawni hirach a chostau ariannol uwch nag opsiynau eraill. |
| Opsiw 8 | Symud yr holl ddeunydd ansefydlog neu a allai fod yn ansefydlog o domen Uchaf Llanwynno i safle derbynnydd cyfagos neu gerllaw heb orfod mynd â'r deunydd 'oddi ar y safle', gan adael y Domen Isaf sefydlog yn ei le. Byddai hyn yn gofyn am symud oddeutu 160,000 metr <sup>3</sup> o ddeunydd, a rhywfaint o fesurau lliniaru amgylcheddol ar y ddau safle, cyfnod rhesymol i'w gyflawni a chost ariannol resymol i'r gwaith.  |

- 2.2.4 Wrth asesu'r opsiynau yma, cafodd yr ystyriaeth fwyaf ei rhoi i ddigwyddiadau mis Chwefror 2020 a'r gwaith o atal tirlithriad arall. O'r dadansoddiad gwerthuso opsiynau, roedd yn amlwg ei bod yn hanfodol dewis datrysiad diogel ac ymarferol.
- 2.2.5 Y datrysiad y penderfynwyd arno a gafodd ei gyflwyno yn y cais yma oedd Opsiw 8, sy'n cynnwys symud y rhan fwyaf o'r deunydd o'r Domen Uchaf i safle derbynnydd agos. Mae hyn yn lleihau'r effaith ar dderbynnyddion amgylcheddol yn yr ardal, yn enwedig ar ecoleg leol y safle a'r gymuned leol (o gludo'r deunydd oddi ar y safle) o'i gymharu â'r opsiynau eraill a oedd yn cynnwys symud deunydd.
- 2.2.6 Mae hefyd yn ddatrysiad sy'n lleihau cyfnod y gwaith sy'n ofynnol er mwyn cludo ac ailbroffilio'r deunydd.
- 2.2.7 Does dim gwaith yn cael ei gynnig ar gyfer Tomen Isaf Llanwynno gan yr ystyrir ei fod yn fwy sefydlog ynddo'i hun. Mae hefyd yn cyflawni'r swyddogaeth o bwysoli troed yr ardal o ansefydlogrwydd naturiol ar y llechwedd yn union uwchben iddo.
- 2.2.8 Mae Ffigur 1 isod yn dangos lleoliad y ddwy domen cyn y tirlithriad - y Domen Uchaf yw'r ardal mwy sydd wedi'i hamlinellu ac sy'n torri ar draws yr hen dramffordd, a'r Domen Isaf yw'r ardal lai sy'n agosach at waelod y cwm. Mae Tomen Uchaf Llanwynno wedi'i anodi'n dair rhan - A) ardal de-orllewinol, B) ardal tirlithriad ac, C) ardal ogledd-ddwyreiniol.

**Ffigur 1: Lleoliad Tomennydd Uchaf ac Isaf Llanwynno**



- 2.2.9 O ran opsiynau manwl y dyluniad, fel y trafodwyd uchod, roedd hon yn broses ailadroddol. Roedd y broses yn cynnwys ymgynghori'n helaeth â rhanddeiliaid allweddol a oedd yn gallu rhoi cyngor a dylanwadu ar y dyluniad wrth iddo ddatblygu (gweler yr adran nesaf am ragor o fanylion). Roedd gan y garfan dylunio ddwy garreg filltir allweddol yn y broses, ac roedd y ddwy yn cynnwys gweithdy dylunio technegol. Daeth y gweithdai ag arbenigwyr ynghyd o bob agwedd ar y disgyblaethau adeiladu ac amgylcheddol sy'n rhan o'r prosiect, er mwyn adolygu'r dyluniad yn feirniadol bryd hynny.
- 2.2.10 Unwaith eto, caiff y cronoleg ac effaith y broses yma'i ddisgrifio yn y Datganiad Amgylcheddol; y pwynt allweddol yw bod y newidiadau pwysig i'r cynllun, y dulliau adeiladu a'r mesurau lliniaru a gynigiwyd wedi'u gwneud er mwyn llunio datrysiad a fyddai'n cyflawni'r canlyniad allweddol o wneud y domen yn ddiogel wrth leihau'r effaith ar yr amgylchedd a, lle bo hynny'n bosibl, edrych am ffyrdd i'w wella.

## 2.3 Ymgynghoriad hyd yma

- 2.3.1 Yn sail i'r broses ddylunio ar bob cam roedd set o ymgynghorai allweddol o'r tu allan i'r garfan dylunio. Roedd y rhain yn cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau a fyddai'n ymgynghorai statudol ym mhroses y cais cynllunio. Roedd y cyswllt â'r sefydliadau ar ffurf cyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol a thrafodaethau un wrth un. Roedd ymarfer Cwmpasu'r Asesiad o'r Effeithiau Amgylcheddol yn ganolbwynt ar gyfer ymgynghoriad a roddodd gyfle i'r holl rhanddeiliaid statudol ddylanwadu ar y dyluniad a rhoi sylwadau ar y cynnig yng nghamau cynnar y dyluniad.
- 2.3.2 Roedd yr ymgynghoriadau'n cynnwys y canlynol:
- RhCT - gwahanol adrannau gan gynnwys perygl llifogydd, hawliau tramwy cyhoeddus, cludiant ac ecoleg;
  - Awdurdod Glo;
  - Cyfoeth Naturiol Cymru;

- Cadw;
- Dwr Cymru;
- Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru;
- Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch; a
- Western Power.

2.3.3 Ar adeg ysgrifennu'r ddogfen yma, mae cam ychwanegol yn natblygiad yr opsiwn a ffefrir ar y gweill. Mae hyn yn cynnwys ymarfer ymgynghori ffurfiol cyn ymgeisio sy'n cynnwys y cyhoedd, tirfeddianwyr cyfagos, cyrff statudol ac anstatudol a rhanddeiliaid. Bydd y canlyniadau ac unrhyw newidiadau dilynol i'r dyluniad yn cael eu hymgorffori yn fersiwn derfynol yr adroddiad yma, cyn eu cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol. Bydd y canlyniadau hefyd yn cael eu nodi mewn Adroddiad Ymgynghori Cyn Ymgeisio ar wahân a fydd yn cyd-fynd â'r cais terfynol a gyflwynwyd.

## 2.4 Crynodeb o'r Dyluniad a Ffefrir

2.4.1 Mae'r adran yma'n disgrifio'r agweddau geodechnegol yn natrysiaid y dyluniad sy'n cael ei gynnig yn y cais yma. Mae'n disgrifio'r gwaith arfaethedig i'r safle rhoddwr, y safle derbynnydd a'r ffordd gludo arfaethedig rhyngddyn nhw. Mae'r disgrifiad yn grynoded o sylwebaeth fanylach sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Astudiaeth Ffynonellau Rhagarweiniol (PSSR) a dogfennau eraill sy'n cyd-fynd â hi.

### **Safle Rhoddwr - Tomen Uchaf Llanwynno**

2.4.2 Mae'r proffil gorffenedig arfaethedig y tir yn un o lethr gwastad. Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen delio ag oddeutu 195,000 metr<sup>3</sup> o rwbel sydd wedi'i adael yno. Bydd 35,000 metr<sup>3</sup> o hwn yn cael ei ddefnyddio i lenwi nodweddion fel y graith slip. Bydd hyn yn gadael oddeutu 160,000 metr<sup>3</sup> net a fydd angen ei allforio i'r safle derbynnydd. Mae'r safle rhoddwr sydd i'w gloddio yn cynnwys y rhan fwyaf o ardal Tomen Uchaf Llanwynno a fydd yn cael ei ailbroffilio i gyd-fynd â'r tir o'i amgylch. Bydd cyfran fach o'r Domen Uchaf sydd y tu hwnt i raddau gogledd-orllewinol ffiniau safle'r cais yn cael ei gadael yn y fan a'r lle gan ei bod y tu allan i berchnogaeth yr ymgeisydd. Ystyrir ei bod yn ddiogel gadael y rhan yma gan na fydd, ar ei phen ei hun, yn bygwth achos o dirlithriad. Mae'r ardal siâp afreolaidd yn mesur oddeutu 500 metr o hyd a rhwng 70 metr a 130 metr o led. Yn dilyn ymlaen o'r gwaith ailbroffilio, bydd y safle a'r ardaloedd sydd 'wedi'u llenwi' yn destun cynigion sy'n dibynnu ar broses adfywio naturiol, sy'n cael ei threialu yn y cynllun yma, gan gynnig y potensial i hyrwyddo a gwarchod pwysig ac eiconig Cynefinoedd y Cwm mewn ffordd a fydd yn sicrhau'r buddion ecolegol a chymdeithasol mwyaf posibl. Mae manylion llawn am faint yr ardal a'r proffiliau arfaethedig a phresennol wedi'u cynnwys yn y set o gynlluniau sy'n cyd-fynd â'r cais yma.

2.4.3 Bydd angen gwaith draenio parhaol ychwanegol i sicrhau y bydd y llechwedd diwygiedig yn aros yn sefydlog. Bydd y rhain yn cynnwys gwaith ar nodweddion draenio presennol ynghyd â gwaith draenio ychwanegol, yn bennaf yn cynnwys ffosydd bas a ffurfiwyd yn yr arglawdd sydd wedi'i ailbroffilio er mwyn cludo dŵr ffo i ffosydd draenio, nentydd a ffrydiau presennol. Mae manylion llawn wedi'u darparu yn y Strategaeth Draenio sydd ynghlwm wrth y Datganiad Amgylcheddol a'r Cynllun Draenio. Mae crynodeb pellach wedi'i nodi yn yr is-adran Draenio isod.

### **Ffordd Gludo a Phwyntiau Mynediad**

2.4.4 Bydd yr hen drac tramffordd presennol rhwng Tomen Uchaf Llanwynno a Old Smokey yn cael ei ddefnyddio i gludo'r holl ddeunydd o'r safle rhoddwr i'r safle derbynnydd. Bydd hyn yn osgoi effaith sylweddol o 16,000 o deithiau HGV ar y gymuned leol a rhwydweithiau ffyrdd. Cafodd y cynllun ei dylunio hefyd fel na fydd angen mewnforio unrhyw faint o lenwad ychwanegol sylweddol ar gyfer y naill safle na'r llall.

- 2.4.5 Yn ardal y tirlithriad cafodd cyfran o'r trac presennol (tua 370 metr) ei dinistrio gan y tirlithriad. Ar ôl cwblhau'r gwaith cloddio bydd hwn yn cael ei adfer fel llwybr droed 1.5 metr o led gan ddarparu mynediad at ddibenion cynnal a chadw a monitro yn y dyfodol. Bydd llwybrau troed/traciau ychwanegol 1.3 metr o led yn cael eu darparu'n gyfochrog â rhai o'r nodweddiadion pantiau draenio arfaethedig i hwyluso gwaith cynnal a chadw. Mae trawslun nodweddiadol trwy'r llwybrau/traciau arfaethedig wedi'i ddarparu yn y llun Trefniant Cyffredinol sydd wedi'i gynnwys hefyd. Ar hyd gweddill yr hyd sy'n ofynnol bydd y trac presennol yn cael ei wella. Bydd hyn yn cwmpasu oddeutu 650 metr o hyd. Bydd angen manau pasio ar y trac, a bydd angen cynnal gwaith cryfhau ac ehangu i allu derbyn maint a chyfaint y traffig adeiladu sy'n cael ei ragweld er mwyn symud y deunydd o un safle i'r llall. Yn ychwanegol at y gwaith yma, bydd angen rhywfaint o waith draenio'r llwybr i leihau'r difrod o ddŵr ffo o'r llechwedd.
- 2.4.6 Yn nodweddiadol, bydd rhannau'r trac sydd wedi'u gwella yn cynnwys wyneb sy'n 2 metr o led gyda ffos ddraenio yn rhedeg yn gyfochrog ag ef sy'n gofyn am led pellach o 1 metr er mwyn ei osod. Mae hyd y trac sydd ei angen wedi'i gadw mor fach â phosibl, ac fe'i dangosir ar y ddau gynllun Trefniant Cyffredinol yn y pecyn cais.
- 2.4.7 Cynigir y bydd dau bwynt mynediad i'r safle adeiladu. Mae'r cyntaf yn cynnwys y fynedfa bresennol oddi ar Heol Blaenllechau tuag at Old Smokey. Bydd hwn yn cael ei ddefnyddio fel y prif fynediad i'r safle adeiladu a bydd yn destun rhywfaint o waith gwella o amgylch y radiws gyda'r briffordd ac ar hyd y trac ei hun i wella'i allu i wrthsefyll pwysau ychwanegol y traffig adeiladu.
- 2.4.8 Mae'r ail fynediad oddeutu 600 metr ymhellach i'r gorllewin ar hyd Heol Blaenllechau. Bydd y trac presennol sydd wedi gordyfu yn cael ei wella ar hyd oddeutu 275 metr o'i hyd, mewn ffordd debyg i'r ffordd gludo, i greu mynedfa eilaidd neu 'mewn argyfwng' a fydd yn cael ei ddefnyddio os bydd unrhyw broblemau wrth ddefnyddio'r prif lwybr i mewn i'r safle. Bydd gatiâu ar y fynedfa yma ar y gyffordd â Heol Blaenllechau. Ar ôl cwblhau'r gwaith, bydd y gatiâu'n cael eu cadw at ddibenion darparu mynediad i'r cerbydau a'r peiriannau sy'n ofynnol i gynnal y seilwaith draenio o amgylch y domen uchaf ac at ddibenion monitro'r safle yn unig.

#### **Safle Derbynydd - Cefn Old Smokey**

- 2.4.9 Mae bwriad i osod y 160,000 metr<sup>3</sup> o ddeunydd llenwi a gloddiwyd o Domen Uchaf Llanwynno ar y safle derbynydd mewn tiffurf afreolaidd i'r dwyrain o Old Smokey. Bydd y tiffurf yma oddeutu 500 metr o hyd a rhwng 75 metr a 150 metr o led, gydag uchder uchaf o 7.8 metr a chyda cwmp o 2.5% ar y crib ar gyfartaledd. Bydd yr ochrau'n darparu llethr 1 mewn 3 ar y mwyaf. Mae'r cynllun Trefniant Cyffredinol cysylltiedig, y cynlluniau trawstoriad a rhan hir o'r dirffurf (sydd wedi'i gynnwys yn y Cynllun Draenio) yn dangos y proffil yn llawn. Bydd dyluniad draeniad y tiffurf newydd yn sicrhau ei sefydlogrwydd yn y tymor hir, ac yn sicrhau na fydd unrhyw newidiadau o ganlyniad i lif dŵr a / neu ddŵr ffo yn effeithio ar Old Smokey na'r tir o'i amgylch. Mae manylion draenio wedi'u cynnwys yn y Strategaeth Draenio sydd ynghlwm wrth y Datganiad Amgylcheddol a'r Cynllun Draenio. Mae crynodeb pellach wedi'i nodi yn yr is-adran Draenio isod. Ar ôl cwblhau'r gwaith, bydd y safle'n dod yn warchodfa natur ac yn destun cynigion sy'n dibynnu ar broses adfywio naturiol a fydd yn cael ei dreialu drwy'r cynllun yma, gan geisio hyrwyddo a gwarchod cynefinoedd pwysig ac eiconig y Cwm.

#### **Gwaith Dros Dro**

- 2.4.10 Bydd yr holl waith dros dro arfaethedig wedi'i leoli o fewn ffin llinell goch y cais. Bydd un compownd adeiladu ar y safle a fydd â dimensiynau oddeutu 60 metr wrth 125 metr. Bydd hyn wedi'i leoli i'r dwyrain o'r llwybr cludo, i'r gorllewin o'r safle derbynydd. Mae'r lleoliad arfaethedig i'w weld ar y cynllun cysylltiedig (V2-S03-0014) sydd wedi'i atodi i'r Datganiad Amgylcheddol. Cafodd y safle yma'i ddewis yn ofalus i fod y maint ymarferol lleiaf, gan leihau'r gofyniad am waith clirio ac effaith ar fioamrywiaeth wrth

barhau i fod yn gyfleus ar gyfer gofynion gweithredol y contractwr.

- 2.4.11 Am resymau diogelwch yn unig, bydd goleuadau yn cael eu darparu ar y compownd. Fodd bynnag, fydd dim angen goleuadau dros dro eraill ar safle'r datblygiad. Bydd y nifer isaf o oleuadau sy'n ofynnol yn cael eu defnyddio ar y compownd, a byddan nhw'n cael eu hwynebu tuag i lawr er mwyn sicrhau cyn lleied o aflonyddwch â phosibl ag ecoleg.
- 2.4.12 Bydd draeniad dros dro yn cael ei osod fel sydd wedi'i nodi yn y Strategaeth Draenio ac fel sydd wedi'i nodi ar y cynllun Trefniant Cyffredinol ar gyfer y safle rhoddwr. Bydd hyn yn darparu ar gyfer rhoi'r cynllun draenio parhaol ar waith yn raddol.
- 2.4.13 Bydd pentyrrau o uwchbridd a thywarchen o'r ddau safle yn cael eu storio (ar wahân) o fewn ffin y llinell goch hyd nes y byddan nhw'n cael eu hailosod yng ngham cyntaf y broses ailgyfnewid. Mae'r safleoedd arfaethedig hefyd yn cael eu dangos ar y cynllun gwaith dros dro sydd wedi'i gynnwys yn y Datganiad Amgylcheddol.
- 2.4.14 Mae bwriad i'r mân newidiadau i'r gyffordd trac mynediad presennol i'r gogledd o Old Smokey gyda Heol Blaenllechau sydd wedi'u nodi eisoes fod yn rhai dros dro hefyd. Bydd dim ond angen rhain er mwyn darparu cylch troi i gerbydau mwy sydd angen mynediad i'r safle. Bydd y trefniadau presennol ar y gyffordd yn cael eu hadfer ar ôl cwblhau'r gwaith. Disgrifir y rhain hefyd o dan yr adran Ystyriaethau yn ymwneud â Mynediad.
- 2.4.15 Bydd mesurau yn cael eu rhoi ar waith hefyd i sicrhau diogelwch y cyhoedd a gwarchod cynefinoedd bregus yn ystod y cam adeiladu. Yn nodweddiadol, bydd y rhain yn cynnwys gosod ffens ar y llwybr troed a thir mynediad agored er mwyn atal mynediad i'r safle datblygu. Bydd ffensys amddiffyn hefyd yn cael eu gosod wrth gynefinoedd fel coed sydd i'w cadw, lle bernir eu bod nhw'n agored i effeithiau adeiladu.

## 2.5 Datblygu'r Dyluniad Manwl

- 2.5.1 Mae'r sylwebaeth ganlynol yn disgrifio'r gwahanol agweddau 'dylunio' a gafodd eu hystyried wrth ddylunio'r cynllun. Ar y cyd â'r adran 'Ystyriaethau yn ymwneud â Mynediad' sy'n dilyn, mae'n edrych ar sut aethpwyd i'r afael ag elfennau allweddol y dyluniad a'r dylanwad a gawson nhw ar y datrysiad a ffefrir. Mae mwyafrif yr is-adrannau yn destun Penodau'r Datganiad Amgylcheddol er nad ydyn nhw o reidrwydd yn dilyn yr un drefn â'r Datganiad Amgylcheddol. Mae modd gweld manylion llawn holl asesiadau'r Datganiad Amgylcheddol yn y bennod gyfatebol yn y Datganiad Amgylcheddol ac fel crynodeb yn y ddogfen Crynodeb Annhechnegol sy'n cyd-fynd â'r cais yma.
- 2.5.2 Mae'r materion dylunio yn ymwneud â'r rhai sy'n effeithio ar naill ai'r cam adeiladu, y cam gweithredol neu'r ddau. Ochr yn ochr â'r amcanion allweddol sydd i'w cyflawni a'r Datganiad Amgylcheddol a materion eraill y mae'r cynllun yn mynd i'r afael â nhw, cafodd set o gyfyngiadau allweddol eu nodi. Cynorthwyodd hyn i'r dylunwyr i lunio'r cynnig cychwynnol. I grynhoi, roedd y rhain yn cynnwys:
- Mwyngloddio hanesyddol a hen domenni sy'n bodoli yn yr ardal;
  - Nodweddion ecolegol gan gynnwys pedwar Safle o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC) yn yr ardal, gyda SINC Old Smokey ar y safle a nifer o gynefinoedd o bwysigrwydd sirol ac sydd â gwerth ecolegol ar y safle. Hefyd, mae rhywogaethau gwarchoddedig yn bresennol ar y safle;
  - Mynediad a thrafnidiaeth gan gynnwys Hawliau Tramwy Cyhoeddus;
  - Afon Rhondda Fach yn y cwm islaw'r safle; a
  - Tref gyfagos Tylorstown yn y Cwm islaw a'r ganolfan hamdden leol sydd wedi'i

lleoli'n union o dan y llechwedd a Thomen Uchaf Llanwynno.

## 2.6 Lleoliad a Chapasiti

- 2.6.1 Yn ychwanegol i'r materion a gafodd eu hystyried yn rhan o'r Datganiad Amgylcheddol, roedd rhan o'r rhesymeg ddylunio yn ymwneud â gallu'r safle derbynnydd i ddarparu'n gorfforol ar gyfer y maint o ddeunydd sydd i'w adael yno, a hynny mewn modd diogel.
- 2.6.2 Fel y trafodwyd yn adran 2.2, cafodd yr opsiwn i gymryd yr holl ddeunydd 'oddi ar y safle' ei ystyried, ond fe'i gwrthodwyd gan fod yr effaith ar y rhwydwaith priffyrdd lleol cul, ac anawsterau wrth negodi, yn golygu na fyddai'r opsiwn yma'n ymarferol. Byddai hefyd yn achosi nifer sylweddol o symudiadau gan gerbydau - amcangyfrifir y byddai oddeutu 16,000 o deithiau unigol gan HGV (yno ac yn ôl), a hynny dim ond ar gyfer symud y deunydd, a'r effeithiau niweidiol cysylltiedig ar gymunedau lleol a chynnydd yn ôl-troed carbon y cynllun. Caiff effeithiau cludiant y datrysiad a ffefrir eu trafod yn fanylach yn y Datganiad Trafnidiaeth cysylltiedig a'u crynhoi mewn is-adran arall yn yr adroddiad yma isod.
- 2.6.3 Yn ogystal â bod yn agos at y safle rhoddwr, roedd y lleoliad a ddewiswyd ar gyfer y safle derbynnydd hefyd yn bodloni'r meini prawf sy'n ofynnol i leihau ei effaith ar yr amgylchedd yn ogystal ag yn gallu delio â'r holl ddeunydd sydd angen ei symud mewn un lleoliad. Roedd y ffactorau cysylltiedig a oedd yn dylanwadu ar y penderfyniad o ran lleoliad y safle derbynnydd hefyd yn cynnwys lleihau'r effeithiau gweledol, effeithiau amwynder ac effeithiau ecolegol ac amgylcheddol tebygol eraill fel sy'n cael eu trafod yn yr is-adrannau canlynol.

## 2.7 Damweiniau a Thrychinebau Mawr (gan gynnwys Sefydlogrwydd Llethrau)

- 2.7.1 Mae'r sylwebaeth bwnc yma'n bennod benodol yn y Datganiad Amgylcheddol, ac yn cyfleu man cychwyn a rhesymeg y cynllun arfaethedig, h.y. atal tirlithriad arall tebyg i'r un a ddigwyddodd yn ystod Storm Dennis.
- 2.7.2 Mae'r asesiad, fodd bynnag, yn eang ac yn nodi peryglon presennol a pheryglon posibl yn ystod y gwaith adeiladu ac ar ôl ei gwblhau. Mae'n cynnwys edrych ar reoli risgiau/materion diogelwch i fodau dynol, eiddo/seilwaith ac ecoleg/cynefinoedd.
- 2.7.3 Y man cychwyn ar gyfer deall y risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynllun arfaethedig oedd pennu'r risg a oedd eisoes yn bodoli yn y senario 'peidio â gwneud dim'. I'r perwyl hwn, cafodd asesiad sefydlogrwydd y llethr ei gynnal (wedi'i atodi i'r Datganiad Amgylcheddol) a oedd yn edrych ar sefydlogrwydd cyfredol Tomen Uchaf Llanwynno mewn perthynas ag arferion gorau a chanllawiau sydd wedi'u sefydlu.
- 2.7.4 Gelwir y safon a ddefnyddir i asesu diogelwch y deunydd sy'n weddill yn Ffactor Sefydlogrwydd (FoS), sydd yn ei hanfod yn meintiol faint yn gryfach yw 'system' na'r isafswm sy'n ofynnol yn ddamcaniaethol. Rhoddir sgôr FoS o 1.00 i'r lefel waelodlin yma, ond er hyn, er mwyn sicrhau dibynadwyedd, yn nodweddiadol mae strwythurau'n cael eu cynllunio i gyflawni FoS cryfach (uwch) na'r lleiafswm sy'n angenrheidiol.
- 2.7.5 Ar gyfer yr asesiad yma, defnyddiwyd y FoS a nodwyd yn y Rheoliadau Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) (1971) a 'Chodau a Rheolau - Tomennydd' (1971) y Bwrdd Glo Cenedlaethol (NCB). Roedd y ddau o'r rhain yn gofyn am isafswm FoS o 1.20 ar gyfer tomennydd dosbarthedig caeedig lle mae byrddau dŵr yn hysbys, fel yn achos Tomen Uchaf Llanwynno.
- 2.7.6 Daeth yr adroddiad yma i'r casgliad bod y Domen Uchaf Llanwynno sy'n weddill yn undod bras o ran sefydlogrwydd byd-eang cyffredinol gyda FoS o 1.00.
- 2.7.7 Felly, roedd cyflawni safon uwch yn sbardun allweddol wrth ddylunio'r datblygiad arfaethedig. Mae'r dyluniad a ffefrir yn cynnwys ailbroffilio Tomen Uchaf Llanwynno,

ynghyd â mesurau draenio i reoli lefelau dŵr wyneb a dŵr daear. Mae hyn yn cynyddu sefydlogrwydd yr ardal, gan gyflawni FoS o 1.20 yn ardal y tirlithriad a'r ardal gogledd-ddwyreiniol (gweler Ffigur 1 uchod), a FoS o 1.30 ar gyfer yr ardal de-orllewinol yn unol â'r FoS a awgrymir yn y Rheoliadau.

- 2.7.8 Nododd adroddiad sefydlogrwydd y llethr hefyd fod sefydlogrwydd cyffredinol Tomen Uchaf Llanwynno yn sensitif i newidiadau yn lefelau dŵr daear, felly mae'r cynllun yn gofyn am system ddraenio gadarn mae modd ei chynnal yn hawdd er mwyn cadw lefelau dŵr wyneb a dŵr daear ar lefelau derbyniol. Caiff y datrysiaid arfaethedig ar gyfer draenio ei drafod ymhellach yn yr adroddiad yma.
- 2.7.9 Yn ystod y cam adeiladu, mae'r achosion gwaethaf o risgiau ar gyfer damweiniau a thrychinebau mawr yn dod o ansefydlogrwydd posibl ar y ddaear a fyddai'n achosi tirlithriad neu ymsuddiant arall, a hynny yn sgil y gweithgareddau adeiladu neu dywydd eithafol, yn enwedig yn ystod cyfnodau o law trwm. Gallai hyn effeithio ar weithwyr y safle adeiladu, o bosibl defnyddwyr Canolfan Hamdden Rhondda Fach a defnyddwyr y llwybrau troed cyfagos a gallai fod angen ymateb brys.
- 2.7.10 Er mwyn lleihau'r risgiau yma, bydd gwaith arolygu geodechnegol a gwaith monitro dŵr daear ychwanegol yn cael eu cynnal i fesur y risg i sefydlogrwydd y ddaear ar y safle, ac er mwyn sicrhau bod penderfyniadau dylunio yn cael eu gwneud gyda'r ddealltwriaeth ddiweddaraf gorau o amodau a sefydlogrwydd y ddaear. Bydd mesurau arfer gorau ar waith ar y safle trwy gydol y cyfnod adeiladu er mwyn sicrhau diogelwch gweithwyr adeiladu a derbynyddion yn yr ardal gyfagos yn ystod y cam yma.

## 2.8 Daearreg, Asedau Deunyddiol a Gwastraff

- 2.8.1 Mae'r bennod yma yn y Datganiad Amgylcheddol yn asesu effeithiau posibl y dyluniad a ffefrir sy'n gysylltiedig ag adnoddau materol a gwastraff sydd yn ofynnol ac sy'n cael eu creu gan y datblygiad, yn ogystal ag asesu effeithiau ar ddaearreg leol.
- 2.8.2 Mae rhai o'r agweddau dylunio allweddol sy'n cael eu trafod yn y bennod yma'n cynnwys lleoliad a thirffurf y safle derbynydd, sefydlogrwydd y ddaear yn gyffredinol ac yn arbennig y safle rhoddwr a'r safle derbynydd.
- 2.8.3 Mae'n canfod nad oes unrhyw nodweddion geomorffolegol neu ddaearregol o ddiddordeb nac o bwysigrwydd gwyddonol o fewn safle'r cais nac yn gyfagos iddo y byddai'r cynllun yn effeithio arnyh.
- 2.8.4 Er mwyn llywio dyluniad y cynllun, cafodd Asesiad Risg Mwyngloddio Glo ei gomisiynu, ac mae copi ohono wedi'i atodi i'r Datganiad Amgylcheddol. Mae'r safle derbynydd y tu allan i ardal risg uchel y datblygiad tra bod y safle rhoddwr o fewn ardal risg uchel y datblygiad. Aseswyd bod yr effeithiau ar sefydlogrwydd y datblygiad gorffenedig yn sgil materion mwyngloddio blaenorol yn annhebygol o ganlyniad i hyd yr amser ers i weithrediadau mwyngloddio ddod i ben. Chawson nhw felly ddim eu hystyried yn gyfyngiad ar y dyluniad.
- 2.8.5 Mae daearreg waelodol y safle derbynydd, sy'n cynnwys craig gadarn iawn heb ddŵr daear, hefyd yn cael ei ystyried yn addas i dderbyn maint y deunydd sy'n cael ei gynneg. Mae gorwedd y tu allan i'r ardal risg uchel mwyngloddio glo yn rhoi mwy o sicrwydd a hyder yn y penderfyniad dylunio o ran lleoli'r safle derbynydd yn y lleoliad yma.
- 2.8.6 Byddai gwaith adeiladu a defnyddio'r tir yn barhaol ar gyfer y datblygiad yn sterileiddio'r adnoddau mwynau gwaelodol. Fodd bynnag, ystyriwyd nad oedd y dyddodion tywod, graean, tywodfaen a glo gwaelodol yn adnodd o werth arbennig o uchel, ac mae cyfyngiadau eisoes o ran eu hechdynnu oherwydd y dref gyfagos a'r tomenni gwastraff pyllau glo sy'n bodoli eisoes. Felly doedd yr effaith ar adnoddau mwynau ar y safle ddim yn cael ei hystyried yn gyfyngiad ar ddatblygiad.
- 2.8.7 O ran gwastraff a gynhyrchir gan y gweithrediadau adeiladu, bydd yn rhaid cael



gwared ar unrhyw ddeunydd nad oes modd ei aildefnyddio oddi ar y safle. Bydd mabwysiadu arfer rheoli gorau yn lleihau'r gwastraff adeiladu sy'n cael ei gynhyrchu i'r lleiaf posibl trwy reoli'r defnydd o adnoddau yn ofalus, hyrwyddo aildefnyddio a lleihau gwastraff. Bydd manylion pellach ar hyn yn y Cynllun Rheoli Amgylcheddol Gwaith Adeiladu (CEMP), ynghyd â manylion ar reoli a storio deunyddiau dros dro yn ystod y gwaith adeiladu. Mae copi amlinellol o'r Cynllun Rheoli Amgylcheddol Gwaith Adeiladu wedi'i atodi i'r Datganiad Amgylcheddol.

### **Nodyn ar Dir Halogedig**

- 2.8.8 Chafodd asesiad o bresenoldeb unrhyw dir halogedig ddim ei gynnwys yn y Datganiad Amgylcheddol oherwydd statws lled anadweithiol y creigiau crai a'r siâl llenwi wedi'u cloddio sy'n ffurfio cyfansoddion mäs y tirlithriad a gweddillion Tomen Llanwynno Uchaf. Hefyd, does dim ffynhonnell sydd yn cynnig cyswllt credadwy o ran halogiad. Mae sylwebaeth ar resymeg a sail y dull yma wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Astudiaeth Ffynonellau Rhagarweiniol sydd wedi'i atodi i'r Datganiad Amgylcheddol.

## **2.9 Yr Amgylchedd Dŵr a Pherygl Llifogydd**

- 2.9.1 Mae'r sylwebaeth is-adran yma, sydd wedi'i dynnu o'r Bennod yn y Datganiad Amgylcheddol, wedi'i chyfyngu i'r effeithiau posibl ar ansawdd afonydd a geomorffoleg, yn ogystal ag ansawdd dŵr daear, a allai ddigwydd o ganlyniad i'r gwaith arfaethedig a sut mae dyluniad y cynllun yn lleihau'r rhain. Mae'r effeithiau posibl ar ddraenio dŵr wyneb a llifogydd hefyd yn cael eu hystyried.
- 2.9.2 Roedd dealltwriaeth glir o effeithiau llif dŵr ar sefydlogrwydd y deunydd a gafodd ei adael ar y llechwedd ac yn gyfagos i Old Smokey yn ystyriaethau pwysig yn y broses ddylunio. Credir bod y tirlithriad a ddigwyddodd ym mis Chwefror 2020 wedi digwydd o ganlyniad i grynhoad dŵr wyneb yn ffurfio pyllau a deunydd ansefydlogi yn y domen. Mae is-adran ar wahân isod yn delio â'r datrysiad arfaethedig ar gyfer draenio'r safle.
- 2.9.3 Mae'r rhan fwyaf o safle'r cais yn dod o fewn dalgylch Afon Rhondda Fach, ond mae ymyl ddwyreiniol y safle yn gorwedd yn nalgylch Nant Clydach, y mae ei blaenddyfroedd yn ffurfio i'r dwyrain o'r safle ac yn llifo i gyfeiriad de-orllewinol cyn ymuno ag Afon Taf i'r gogledd o Gilfynydd.
- 2.9.4 Mae Afon Rhondda Fach a Nant Clydach wedi'u cynnwys mewn asesiad o dan y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr (wedi'i atodi i'r Datganiad Amgylcheddol). Ar hyn o bryd mae gan y ddau botensial cyffredinol 'Gwael', yn rhannol o ganlyniad i lygredd o nifer o ffynonellau gan gynnwys dŵr o'r pwll glo a thomenni deunydd pwll glo.
- 2.9.5 Bydd y datblygiad arfaethedig yn rhyngweithio â rhwydwaith o ddraeniau sy'n bodoli eisoes sy'n bwydo i mewn i Afon Rhondda Fach yn ogystal ag yn gorwedd uwchben pocedi o ddŵr daear.
- 2.9.6 Mae mapiau llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodi bod y Cynllun Arfaethedig o fewn Parth Llifogydd 'A' CNC, sef "Ystyrir mai ychydig neu ddim risg sydd o lifogydd afonol neu lanwol/arfordirol" ac felly nid yw mewn perygl o lifogydd o afonydd na'r môr. Felly, er bod llifogydd yn cael eu hystyried ym mhennod y Datganiad Amgylcheddol, dydy'r datblygiad ddim wedi bod yn destun Asesiad Canlyniadau Llifogydd.
- 2.9.7 Nododd asesiad y Datganiad Amgylcheddol nifer o effeithiau negyddol posibl yng ngham adeiladu'r cynllun, ac roedd modd i'r dylunwyr yn gallu ymateb iddyn nhw a'u lliniaru. Roedd y rhain yn gynnwys y canlynol:
- Gallai priddoedd, llwch a llygryddion sy'n cael eu rhyddhau yn ystod y gwaith adeiladu fynd i mewn i gwersiau dŵr a dŵr daear lleol a'u niweidio;

- Gallai metelau sy'n bresennol yn Nhomen Uchaf Llanwynno ac yng nghyffiniau'r Safle Derbynnnydd ymgasglu gan effeithio'n andwyol ar gyrsiau dŵr a dŵr daear;
- Bydd y gwaith arfaethedig yn achosi newidiadau ffisegol i'r rhwydwaith draenio presennol yn Nhomen Llanwynno;
- O ganlyniad, gallai fod newid i'r llif dŵr wyneb dros dro a chynydd yn y dŵr ffo a'r perygl llifogydd i staff adeiladu yn ogystal ag offer a gwaith ar y safle.

2.9.8 Er mwyn lliniaru'r effeithiau posibl yma, bydd mesurau atal llygredd yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Rheoli Amgylcheddol Gwaith Adeiladu ac yn cael eu defnyddio ar draws y safle adeiladu i atal unrhyw ddigwyddiadau llygredd yn ystod y gwaith adeiladu, yn enwedig wrth gloddio a thrin deunydd. Bydd hyn hefyd yn cynnwys mesurau i reoli draeniad a pherygl llifogydd dŵr wyneb yn ystod y gwaith adeiladu.

2.9.9 Bydd gwaith monitro dŵr daear yn cael ei gynnal yn barhaus yn ystod y gwaith adeiladu i ganfod unrhyw newidiadau sylweddol i'r canlynol.

- Cynydd posibl yn nifer y metelau a'r gwaddod sy'n mynd i mewn i Afon Rhondda Fach a dŵr daear, yn sgil metelau a gwaddod yn ymgasglu yn ystod y gwaith adeiladu;
- Potensial ar gyfer mwy o berygl llifogydd dŵr wyneb ar y safle derbynnnydd; a
- Newid posib i symudedd ac argaeledd dŵr daear yn yr ardal.

2.9.10 Er mwyn lliniaru'r effeithiau posibl hyn, cynigir y canlynol:

- Mae dyluniad y safle rhoddwr a'r safle derbynnnydd yn cynnwys rhwydweithiau draenio dŵr wyneb a fydd yn sicrhau nad oes unrhyw berygl llifogydd dŵr wyneb yn yr ardal ac i lawr yr afon. Bydd y rhwydwaith yma'n cael ei blannu â llystyfiant planhigion lled-ddyfrwl sy'n gallu amsugno metelau a lleihau'r swm sy'n cyrraedd Afon Rhondda Fach a'r dŵr daear;
- Bydd haen uchaf y pridd yn cael ei ailosod a'i wasgaru ar draws y safle rhoddwr a'r safle derbynnnydd i annog llystyfiant i dyfu ac atal gwaddod a metelau rhag mynd i mewn i'r amgylchedd dŵr; a
- Bydd ffynhonnau monitro yn cael eu gosod i fonitro lefelau dŵr daear yn y safle rhoddwr a'r safle derbynnnydd yng ngham adeiladu a cham gweithredol y Cynllun, er mwyn sicrhau na fydd unrhyw newidiadau sylweddol yn digwydd.

2.9.11 Ystyrir na fydd unrhyw effeithiau andwyol sylweddol ar dderbynyddion yr Amgylchedd Dŵr a Pherygl Llifogydd yn parhau ar yr amod bod y mesurau lliniaru priodol sy'n cael eu hargymell yn cael eu dilyn.

2.9.12 Mae'r cynigion hefyd yn cynnwys manteision fel llai o debygolrwydd y bydd digwyddiadau mawr o ran llygredd dŵr neu newidiadau hydromorffolegol difrifol yn digwydd, o ganlyniad i dirlithriadau yn y dyfodol. Hefyd, bydd gostyngiad posibl o ran faint o fetelau a gwaddod sy'n mynd i mewn i Afon Rhondda Fach a dŵr daear. Mae hyn o ganlyniad i symud deunydd y pwll glo i'r safle derbynnnydd sydd ymhellach i ffwrdd o Afon Rhondda Fach na Thomen Uchaf Llanwynno ac mewn ardal â dŵr daear dyfnach. Mae disgwyl hefyd y bydd llai o berygl llifogydd dŵr wyneb yn y domen ac i lawr yr afon.

## 2.10 Draenio

2.10.1 Cafodd strategaeth draenio dŵr wyneb ei datblygu yn unol â'r athroniaeth sy'n tanlinellu'r systemau draenio cynaliadwy sydd wedi'u cynnwys yn Llawlyfr SuDS (Ciria,

2019) h.y. ffafrio cyfuniad o dechnegau rheoli sy'n rheoli maint ac ansawdd dŵr a hyrwyddo gwerthoedd bioamrywiaeth ac amwynder. Mae dull athroniaeth y dyluniad o ran draenio dŵr wyneb yn cynnal llwybr llif cymharol naturiol dŵr a'i ollwng i sianeli a ffosydd presennol sydd yn y pen draw yn gollwng i Afon Rhondda Fach. Mae manylion llawn y Strategaeth Draenio wedi'u hatodi i'r Datganiad Amgylcheddol ac i'w gweld yn y cynlluniau sy'n cyd-fynd â'r cais - isod mae crynodeb o'r dyluniad.

- 2.10.2 Cafodd dyluniad y safle rhoddwr a'r safle derbynnydd eu dylunio i ddyndered y topograffi presennol cystal ag y bo modd er mwyn caniatáu cynnal llwybrau gorlifo presennol ac ymgorffori nodweddion draenio i ddŵr ffo uniongyrchol lle bo hynny'n briodol i gynnal y llwybrau llif presennol lle mae'r lefelau wedi'u newid.
- 2.10.3 Cafodd y nodweddion draenio ar gyfer y safle rhoddwr eu dylunio i ganiatáu nid yn unig trawsgludiad dŵr wyneb ond llifoedd ffynnon hefyd. Bydd llifoedd ffynnon yn cael eu hatal ar eu ffordd a'u cludo trwy ddraeniau saethben wedi'u llenwi â graean i sianeli draenio arfaethedig er mwyn ceisio gwella sefydlogrwydd a llithriadau posibl yn y dyfodol. Mae dŵr wyneb ffo yn cael ei atal ar ei ffordd gan bantiau sydd wedi'u lleoli ar hyd ysgafellau sy'n cludo llifau i ffos arfaethedig ar hyd y trac wedi'i adfer sydd, yn ei dro, yn gollwng i'r ffosydd / sianelau presennol. Yn y ffosydd ger y trac wedi'i adfer a'r dramffordd segur, bydd llifoedd yn cael eu gwanhau gan argaeau gwirio bach.
- 2.10.4 Bydd y sianeli draenio presennol a gafodd eu difrodi gan y slip yn cael eu hadfer lle bo hynny'n briodol a'u hatgyfnerthu â mat erydiad i ddarparu ar gyfer llethrau serth ac i annog llystyfiant i dyfu.
- 2.10.5 Ar y safle derbynnydd, mae pantiau wedi'u hymgorffori i gludo llifoedd o ben y deunydd sydd wedi'i adael a gwaelod y cloddiau graddedig i'w casglu mewn pyllau gwanhau. Mae pantiau hefyd wedi'u hymgorffori gan gyfeirio llifoedd i sianeli presennol lle mae deunydd sydd wedi'i adael wedi effeithio ar llwybrau llif presennol dros y tir.
- 2.10.6 Er mwyn sicrhau na fydd unrhyw gynnydd yn y gollyngiadau i'r cyrsiau dŵr a'r sianeli draenio presennol a pheidio â chynyddu llifogydd i lawr yr afon, bydd yr holl lifoedd yn cael eu gwanhau a'u gollwng ar gyfraddau 'Maes Glas' yn unol â gofynion Nodyn Cyngor Technegol 15. Felly, fydd dim cynnydd yn y dŵr sy'n cael ei ollwng oddi ar y safle. Mae'r dyluniad arfaethedig yn caniatáu i gyfraddau dŵr ffo Maes-glas gael eu cynnal fel sy'n bodoli tra hefyd yn bodloni tair o'r pedair colofn o ddyluniad Systemau Draenio Cynaliadwy trwy gynnig gwelliannau i amwynderau, bioamrywiaeth, ac ansawdd dŵr.
- 2.10.7 Mae'r strategaeth arfaethedig yn cynnwys; pantiau a phyllau gwanhau. Bydd nodweddion yn cael eu plannu â llystyfiant a'u hymdroelli i gydweddu â thirwedd naturiol yn ogystal â darparu buddion o ran ansawdd dŵr, amwynder a bioamrywiaeth.

## 2.11 Ecoleg a Chadwraeth Natur

- 2.11.1 Mae'r asesiad ar gyfer bioamrywiaeth yn y Datganiad Amgylcheddol yn ystyried effeithiau ar safleoedd, cynefinoedd a rhywogaethau a gydnabyddir am eu gwerth ecolegol. Mae'n ystyried safleoedd 'dynodedig', sy'n cael eu gwarchod o dan y gyfraith neu reolaethau cynllunio'r awdurdod lleol, a safleoedd 'heb eu dynodi' na fydd efallai'n cael eu gwarchod ond sydd â rhywfaint o werth o ran bywyd gwyllt serch hynny.
- 2.11.2 Mae'r rhain yn cynnwys Safle o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur (SINC) Llethrau Old Smokey, SINC Coedwig San Gwynno, SINC Afon Taf ac Afon Rhondda, a SINC Coetir Blaenllechau. Mae amrywiaeth o gynefinoedd sydd wedi'u rhestru'n gynefinoedd â blaenoriaeth o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 hefyd yn bresennol ar y safle.
- 2.11.3 Mae nifer o rywogaethau gwarchodedig hefyd yn bresennol yn ardal y safle ac o'i amgylch, gan gynnwys ystumod, ymlusgiaid, madfallod cribog ac adar bridio a gaeafu.
- 2.11.4 Roedd yr arbenigedd a'r profiad o gamau blaenorol gwaith adfer y tirlithriad yn llywio pob cam o'r broses ddylunio. Roedd Ecolegydd y Sir yn derbyn gwybodaeth am y

dyluniad wrth iddo fynd yn ei flaen, ac yn cynnig mewnbwn arno. Er enghraifft, mae dyluniad a lleoliad y safle derbynnydd yn sicrhau bod cynefinoedd o werth bioamrywiaeth uwch naill ai'n cael eu hosgoi, neu fod yr ardal sy'n cael ei golli yn cael ei leihau. Roedd pryderon ynghlŷn ag ecoleg a chynefinoedd yn flaenllaw yn yr ystyriaethau ynghylch adfywio'r ddau safle. Arweiniodd hyn at ddyluniad cynllun sydd ddim yn cynnwys mewnfario unrhyw uwchbridd ychwanegol er mwyn osgoi cyflwyno cronfeydd hadau sydd ddim yn lleol. Mae'r cynigion adfywio yn ceisio ailsefydlu cynefinoedd ecolegol 'Y Domen Wastraff' a 'Ffridd' a oedd yn bodoli eisoes ar y ddau safle i ddarparu sylfaen ar gyfer yr aildyfiant. Bydd cynllun ôl-ofal pum mlynedd cynhwysfawr yn cael ei ddilyn er mwyn sicrhau bod llystyfiant wedi'i drawsleoli a phriddoedd uchaf wedi'u hailddefnyddio ynghyd â datblygiad y safle derbynnydd fel gwarchodfa natur.

- 2.11.5 Bydd gweithgareddau clirio ar y safle yn cael eu cyfyngu i amseroedd priodol o'r flwyddyn ac o dan oruchwyliaeth ecolegol os yw'n briodol, a thrwy hynny bydd yn lleihau aflonyddwch i ecoleg a chynefinoedd.
- 2.11.6 Bydd mesurau arfer gorau yn cael eu dilyn mewn perthynas â diogelu'r amgylchedd yn ystod y gwaith adeiladu. Bydd y rhain yn cael eu nodi yng Nghynllun Rheoli Amgylcheddol Gwaith Adeiladu y cynllun. Bydd hwn yn cael ei gwblhau a'i roi ar waith ar y cyd â'r contractwr a ddewiswyd. Bydd mesurau i amddiffyn buddiannau cadwraeth natur yn cynnwys manylu ar y rheini i leihau'r effeithiau o ran llwch y gwaith adeiladu / ansawdd aer, sŵn a mesurau rheoli llygredd i ddŵr a phriddoedd. Yn ogystal, bydd yn ofynnol i'r contractwr penodedig gyflogi gwasanaethau Clerc Gwaith Ecolegol (ECOW). Byddan nhw'n monitro gweithrediad darpariaethau'r Cynllun Rheoli Amgylcheddol Gwaith Adeiladu, yn rhoi cyngor ar y safle a dehongliad o faterion amgylcheddol, a bydd y gallu ganddyn nhw i atal y gwaith pe bai ganddyn nhw bryderon ynghylch materion amddiffyn buddiannau ecolegol.
- 2.11.7 Yn ogystal â mesurau amddiffyn, mae'r cynllun wedi integreiddio gwelliannau i'r dyluniad. Mae'r rhain yn cynnwys:
- Defnyddio toriadau o goed wedi'u cwmpo i greu o leiaf un hibernaculum i ymlusgiaid o dan y ddaear;
  - Gosod o leiaf un blwch nythu ar gyfer cudyll coch;
  - Gosod blychau ar gyfer drudwy; a
  - Gosod o leiaf ddeg blwch caeedig gyda blaen agored ar gyfer ystod o rywogaethau adar bridio cyffredin.
- 2.11.8 Casgliad pennod y Datganiad Amgylcheddol yw nad oes unrhyw effeithiau negyddol i'w rhagweld ar gyfer bioamrywiaeth yr ardal o gam gweithredol y datblygiad, ar ôl i'r gwaith gan gynnwys y gwaith adfywio gael ei gwblhau.

## 2.12 Coed

- 2.12.1 Mae'r arolwg coed a'r adroddiad effaith sy'n cyd-fynd â'r cais, sydd wedi'i atodi i'r Datganiad Amgylcheddol, yn nodi cyfanswm o bum grŵp o goed ar y safle datblygu.
- 2.12.2 Mae'r dyluniad yn sicrhau bod y grwpiau coed yn y categorïau sydd â'r gwerth amwynder uchaf ddim yn cael eu heffeithio gan y cynigion, neu bod modd eu diogelu'n ddigonol gyda ffensys yn ystod y broses adeiladu.
- 2.12.3 Er mwyn cyflawni'r cynnig, fodd bynnag, bydd angen tynnu dau grŵp o goed. Mae un grŵp, sy'n cynnwys oddeutu 20 - 30 cyff o sbriws bach hunan-hadu, wedi'i leoli ar y safle derbynnydd. Mae gwerth amwynder isel i'r coed yma ac ni chynigir plannu coed newydd ar eu cyfer, yn unol â'r dyluniad ar gyfer adfywio'r safle. Cafodd y fethodoleg a ffefrir, a fydd yn gwella ecoleg y safle, ei dylunio i aildefnyddio'r uwchbridd a'r glaswellt presennol gan ganiatáu i aildyfiant naturiol ddigwydd.

- 2.12.4 Mae'r ail grŵp yn meddiannu rhan fach is o'r safle rhoddwr. Mae'r grŵp yma'n cynnwys un goeden bedwen fawr ond yn bennaf mae'n cynnwys rhywogaethau brodorol bach hunan-hadu. Gan fod y grŵp o fewn safle'r domen, ni fu'n bosibl atal eu symud. Argymhellir ailblannu i wneud yn iawn am golli'r rhywogaethau brodorol collddail hyn. Mae lleoliad a graddfa'r hyn sydd i'w blannu i'w benderfynu o hyd, ond mae'n debygol y bydd yn cael ei gyfyngu i'r ardal sy'n cael ei gorchuddio gan y grŵp presennol ynghyd ag ardal cyfadferol arall i'r gorllewin. Mae adfywiad naturiol ar draws mwyafrif y safle i'w ffafrio, o safbwynt ecolegol.
- 2.12.5 Mae'r coed sydd i'w symud yn y ddau grŵp yng 'Nghategori C', fel y'i diffinnir yn y Safon Brydeinig briodol. Mae hyn yn golygu na ddylen nhw gyfyngu ar ddatblygiad.

## 2.13 Tirwedd ac Effeithiau Gweledol

- 2.13.1 Cafodd yr effeithiau ar dirwedd a'r effeithiau gweledol eu hystyried trwy gydol proses dylunio'r cynnig ac mae'r asesiad o'r effeithiau wedi'i gynnwys yn y Datganiad Amgylcheddol. Y tirlfurf newydd ar y safle derbynnydd fydd y newid mwyafrif yn y cynllun, fodd bynnag, fel y trafodwyd yn yr adran flaenorol, mae hefyd angen ystyried effaith y newidiadau ar y llechwedd bresennol yn llawn, gan fod cyfran fawr o'r safle rhoddwr yn cael ei dynnu ac addasiadau yn cael eu cynnal ar y dramffordd.
- 2.13.2 Roedd y garfan dylunio yn canolbwyntio ar geisio sicrhau bod lleoliad, maint a siâp tirlfurf arfaethedig y safle derbynnydd yn achosi cyn lleied o aflonyddwch â phosibl i olygfeydd a'r dirwedd leol, bod y gwaith adfer ar safle'r domen yn gweddu â chyddestun yr ardal gyfagos, a bod cyn lleied â phosibl o effeithiau gweledol o ganlyniad i newidiadau i'r dramffordd.
- 2.13.3 Mae'r dirwedd yn adnodd naturiol pwysig. Mae yna werthfawrogiad helaeth am ei chymeriad, ac mae'i hymddangosiad yn cyfrannu at yr hunaniaeth ranbarthol a'i ymdeimlad o le, fel y cydnabyddir mewn dynodiadau lleol a chenedlaethol neu 'Ardaloedd o Gymeriad'.
- 2.13.4 Cafodd golygfannau allweddol eu hystyried yn asesiad y Datganiad Amgylcheddol, megis eiddo preswyl a lleoliadau awyr agored gyda mynediad i'r cyhoedd, a allai fod yn destun newid o ganlyniad i'r datblygiad. Cafodd yr effeithiau eu hystyried ar gyfer y cam adeiladu a'r cam gweithredol.
- 2.13.5 Yn ystod y gwaith adeiladu, bydd gweithgareddau gwaith yn cael effaith negyddol ar holl olygfeydd allweddol y safle, er enghraifft trwy'r gwaith cloddio a'r gwaith tir, yr adeiladau dros dro a'r safle gwaith adeiladu a cholled llystyfiant. Mae modd lliniaru'r effeithiau yma i raddau, ond does dim modd osgoi'r mwyafrif. Lle bo modd, bydd nodweddion sy'n weledol ymwithiol, fel pentyrrau a safleoedd gwaith, wedi'u lleoli i ffwrdd o olygfannau sensitif.
- 2.13.6 Cafodd ystyriaeth ofalus ei roi yn ystod y broses ddylunio i leoliad, maint a siâp tirlfurf arfaethedig y safle derbynnydd i sicrhau bod yr effeithiau gweledol ar ôl cwblhau'r gwaith cyn lleied â phosibl cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol. Mae rhannau o'r ardal gyfagos yn cael eu nodweddu gan ddyddodion rwbel mwyngloddio, ac mae'r lleoliad a siâp y tirlfurf a ddewiswyd yn un na fyddai allan o'i le naill ai o ran ffurf, graddfa neu leoliad. Mae'r golygfeydd o eiddo, yn enwedig rhai preswyl, wedi'u cyfyngu gan fod y lleoliad a ddewiswyd i'r dwyrain o Old Smokey, ond bydd graddfa'r tirlfurf yn arwain at newid sylweddol i olygfeydd allweddol eraill. Ystyriwyd bod dewis un lleoliad ar gyfer y safle derbynnydd hefyd yn opsiwn a fyddai'n helpu i leihau'r effaith ar y golygfannau mwy sensitif.
- 2.13.7 Mae tirlunio'r nodwedd yn bwysig er mwyn sicrhau bod modd iddo gysoni â'r dirwedd o'i amgylch dros amser. I gyflawni hyn, bydd yr uwchbridd yn cael ei dynnu a'i aildddefnyddio fel dresin uchaf i hyrwyddo llystyfiant i ailgyfyngu naturiol, a bydd rhannau o'r glaswellt gwreiddiol yn cael eu trawsleoli. Fel y trafodwyd yn yr is-adran flaenorol,

ni chynigir plannu coed newydd i gymryd lle'r sbriws bach hunan-hadu y bydd yn rhaid eu tynnu.

- 2.13.8 Ar y safle rhoddwr bydd y gwaith ail-broffilio yn caniatáu adfer siâp gwreiddiol y llechwedd a bydd y creithiau a adawyd gan y tirlithriad yn cael eu llenwi i gysoni proffil y llethr ymhellach. Yr uwchbridd presennol a gafodd ei dynnu a'r glaswellt gwreiddiol fydd ffynhonnell twf llystyfiant. Ystyrir mai hyn yw'r ffordd fwyaf priodol, unwaith y bydd wedi'i sefydlu, i sicrhau bod yr effeithiau gweledol yn cael eu lleihau gan y bydd yn adlewyrchu'r llystyfiant o'i hamgylch. Fodd bynnag, yn ogystal, bydd ardal fach o goed colddail brodorol sy'n bodoli eisoes yn cael eu colli, ac fe gynigir ailblannu i wneud yn iawn am hyn fel y trafodwyd yn yr is-adran flaenorol.

## 2.14 Treftadaeth Ddiwylliannol

- 2.14.1 Mae ystyriaeth fanwl o effaith bosibl y cynllun ar dreftadaeth ddiwylliannol wedi'i chynnwys yn y Datganiad Amgylcheddol. O ran ffiniau'r dyluniad, does dim asedau treftadaeth dynodedig statudol o fewn ffin y llinell goch. Fodd bynnag, mae Safle Grŵp Tomennydd Newydd Tylor (a nodwyd gan Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg-Gwent) o fewn y ffin. Roedd 10 ased unigol y gallai'r cynnig effeithio arnyn nhw o fewn y dynodiad anstatudol yma a ffin y llinell goch, gan gynnwys yr hen dramffordd, olion tai injan weindio a Thomen Uchaf Llanwynno ei hun.
- 2.14.2 Hyd at 1 cilomedr o ffin y cais, nodwyd asedau treftadaeth statudol ac anstatudol ychwanegol a allai gael eu heffeithio.
- 2.14.3 Mae safle'r cais hefyd yn dod o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig Cwm Rhondda, un o 58 ledled y wlad a luniwyd gan Cadw. O fewn hwn, ardal o gymeriad Ochrau Caeëdig Dwyrain Cwm Rhondda Fach o bosibl yw'r un yr effeithir arno fwyaf.
- 2.14.4 Roedd yr opsiynau dylunio yn ystyried yr effaith bosibl ar rai o weddillion ffisegol y dreftadaeth lofaol ar safle'r cais, yr effaith weledol bosibl ar eraill y tu allan i'r safle a'r effaith gyffredinol ar gymeriad y dirwedd.
- 2.14.5 O fewn y safle, roedd ymarferoldeb y gwaith o gyflawni'r cynllun er mwyn bodloni'r safonau diogelwch gofynnol ar gyfer y deunydd a'r llechwedd i'w hailbroffilio, ynghyd â'r dewis i gyfyngu ar y mwyafrif o symudiadau cerbydau i mewn i'r safle, yn golygu nad oedd modd osgoi rhywfaint o effaith. Derbynnir y bydd y gwaith sy'n gysylltiedig â defnyddio rhan o'r dramffordd segur fel ffordd gludo yn cael effaith niweidiol ar y dreftadaeth ddiwydiannol. Er y gellid ystyried bod cael gwared ar ran sylweddol o Domen Uchaf Llanwynno yn effeithio ar gymeriad hanesyddol y dirwedd, roedd y tirlithriad eisoes wedi effeithio'n sylweddol ar gyfanrwydd y nodwedd yma.
- 2.14.6 Fel yr argymhellwyd yn asesiad y Datganiad Amgylcheddol, bydd tystiolaeth o weithgareddau mwyngloddio blaenorol yn cael eu cadw yn y fan a'r lle, megis olion y ddau dŷ injan weindio ynghyd â'r rhannau o'r hen dramffordd nad oes eu hangen yn rhan o'r ffordd gludo.
- 2.14.7 O ran yr effaith gyffredinol ar y dirwedd hanesyddol, mae'r effaith uniongyrchol ar rai elfennau diwydiannol unigol yn Ochrau Caeëdig Dwyrain Cwm Rhondda Fach yn weddol ddifrifol er bod yr effaith gorfforol uniongyrchol absoliwt ar ardal y dirwedd yn ei chyfanrwydd yn cael ei hasesu o fewn y Datganiad Amgylcheddol fel 'Ychydig iawn'. Mae'r penderfyniad dylunio i dynnu a delio â Thomen Uchaf Llanwynno yn unig yn lleihau'r effaith ar y dirwedd hanesyddol, wrth i Domen Isaf Llanwynno gael ei chadw heb darfu arni.
- 2.14.8 Ar y safle derbynnydd, dewiswyd y lleoliad i'r dwyrain o Old Smokey yn fwiadol i leihau effaith weledol y cynllun o olygfannau allweddol, yn enwedig y rhai o Tylorstown.
- 2.14.9 Yr unig ased treftadaeth ddynodedig statudol i gael ei asesu gydag effaith gymedrol neu uwch oedd Neuadd Les rhestredig Gradd II, Tylorstown. Mae'r adeilad yma yn

Tylorstown ar gefn y safle arfaethedig ac felly mae'r llechwedd serth ar oledf a'r nodweddion, gan gynnwys yr hen dramffordd, yn gefndir pwysig wrth edrych arno o'r briffordd. Aseswyd bod yr effaith ar leoliad yr adeilad yn 'Gymedrol', fodd bynnag, am y rhesymau a amlinellwyd uchod, does dim modd newid y cynllun i liniaru'r effaith yma ymhellach.

## 2.15 Ansawdd Aer

- 2.15.1 Caiff y mater yma'i hystyried yn y Datganiad Amgylcheddol ac fe'i haseswyd ar sail niwsans o ran llwch a lefelau uwch posibl o Nitrogen Deuocsid o allyriadau cerbydau. Mae modd i'r ddau o'r rhain gael eu cynhyrchu gan weithgareddau yng nghanam adeiladu'r cynllun.
- 2.15.2 O ran Nitrogen Deuocsid, roedd canfyddiadau yn nodi bod y derbynyddion sensitif yn Tylorstown ei hun. Mae'n annhebygol y bydd unrhyw effeithiau'n sylweddol oherwydd bydd y mwyafrif o symudiadau traffig yn digwydd ar hyd y dramffordd segur sydd dros 1 cilometr i ffwrdd o'r tai preswyl agosaf ac Ardal Rheoli Ansawdd Aer Tylorstown.
- 2.15.3 O ran llwch, mae'r pellter i'r lleoliadau sensitif agosaf yn Tylorstown yn golygu bod yr effaith bosibl yn isel. Bydd y risg o niwsans yn cael ei leihau ymhellach trwy fabwysiadu gweithgareddau lleihau llwch adeiladu safonol, fel deunydd tampo a gorfodi cyfyngiadau cyflymder. Bydd manylion llawn am y mesurau lliniaru yma yng Nghynllun Rheoli Amgylcheddol Gwaith Adeiladu'r cynllun y bydd y contractwr penodedig yn ei ddilyn.

## 2.16 Sŵn

- 2.16.1 Gan na fydd unrhyw sŵn yn cael ei gynhyrchu gan y datblygiad gorffenedig, mae'r ystyriaeth o'r effeithiau posibl yn canolbwyntio ar effeithiau sŵn diangen o beiriannau a gweithgareddau adeiladu, megis gwaith cloddio a chludo deunydd, yn ystod y cam adeiladu.
- 2.16.2 Daeth asesiad y Datganiad Amgylcheddol i'r casgliad y byddai lefelau sŵn ym Mlaenllechau ac yn Tylorstown efallai yn amlwg ar adegau pan fydd gwaith yn cael ei gyflawni ar y safle rhoddwr ac ar hyd y llwybr cludo, ond nid ar y safle derbynydd.
- 2.16.3 Fydd lefel y sŵn ar gyfer y gwaith adeiladu yn ystod y dydd a gweithgareddau symud y ddaear ddim yn mynd y tu hwnt i'r terfyn mewn unrhyw eiddo preswyl, ac mae disgwyl iddo ond fynd y tu hwnt i'r terfyn sŵn yn achlysurol yng Nghanolfan Hamdden Rhondda Fach.
- 2.16.4 Fodd bynnag, gallai effeithiau andwyol ddigwydd os bydd gwaith yn cael ei gynnal yn ystod y nos ac felly mae'r Datganiad Amgylcheddol yn argymhell y dylid cynnal gwaith adeiladu yn ystod oriau'r dydd yn ystod yr wythnos a boreau Sadwrn yn unig.

## 3. Ystyriaethau yn ymwneud â Mynediad

### 3.1 Cerddwyr, Beicwyr a Marchogion

- 3.1.1 Mae saith llwybr ac ardaloedd â mynediad i'r cyhoedd wedi'u nodi o fewn y safle datblygu ac yn ei gyffiniau. Cafodd y rhain eu hystyried yn ystod y broses ddylunio Maen nhw'n cynnwys rhwydwaith o lwybrau troed anffurfiol, dau lwybr Hawliau Tramwy Cyhoeddus, gydag un yn croesi trwy'r safle datblygu, ardaloedd o dir mynediad agored, coedwig gyhoeddus ynghyd â dau lwybr beicio.
- 3.1.2 Nid oedd yn bosibl llunio dyluniad a fyddai'n cael gwared ar yr holl effeithiau ar y llwybrau a'r ardaloedd mynediad yma. Mae rhywfaint o effaith yn parhau o hyd yng ngham adeiladu a cham gweithredol y datblygiad yn y dyluniad a ffefrir. Fodd bynnag, roedd yn bosibl lleihau'r effaith trwy osod mesurau lliniaru ar y dyluniad; yn rhan o'r broses yma, cafodd cyfleoedd eu harchwilio hefyd i benderfynu a fyddai modd dwyn buddion ychwanegol ymlaen yn rhan o'r datblygiad i wneud yn iawn am yr effeithiau.
- 3.1.3 Daeth dadansoddiad y Datganiad Amgylcheddol i'r casgliad na fyddai'r cynllun yn cael unrhyw effeithiau andwyol sylweddol ar gerddwyr, beicwyr a marchogion yn yr ardal leol. Byddai'r prosiect hefyd yn dod ag effeithiau buddiol i'r defnyddwyr lleol yma trwy gynyddu diogelwch a hygyrchedd y llwybrau yn yr ardal, gan gynnwys caniatáu ailagor y llwybr troed a'r llwybr beicio sy'n rhedeg ar hyd gwaelod y cwm.
- 3.1.4 Bydd prif effeithiau andwyol y datblygiad yn berthnasol i'r asedau hynny ar y safle datblygu; h.y. llwybr troed Hawl Tramwy Cyhoeddus sydd ar hyn o bryd yn rhedeg trwy'r safle datblygu ger Old Smokey (rhif llwybr troed TYL/9/1), y llwybrau troed anffurfiol, tir cefn gwlad mynediad cyhoeddus a choedwig gyhoeddus. Bydd y cynllun yn effeithio'n uniongyrchol ar fynediad i'r rhain trwy dorri llwybrau neu dynnu mynediad i dir.
- 3.1.5 Er mwyn lliniaru hyn, bydd dargyfeiriadau ac arwyddion dros dro priodol ar gyfer llwybrau troed a thir mynediad agored sydd wedi'u cau yn ystod y gwaith adeiladu yn cael eu gosod, ac mae llwybrau ac ardaloedd amgen y gall defnyddwyr amwynderau lleol gael mynediad atyn nhw'n rhwydd.
- 3.1.6 Mae llinell llwybr Hawl Tramwy Cyhoeddus TYL/9/1 yn rhedeg trwy rai o'r elfennau draenio arfaethedig ar gyfer y safle derbynnydd ac felly bydd angen dargyfeiriad parhaol yn ogystal â dargyfeiriad dros dro o oddeutu 80 metr. Bydd aliniad terfynol y dargyfeiriad yn cael ei gytuno mewn ymgynghoriad â'r Awdurdod Cynllunio Lleol cyn cyflwyno'r cais ffurfiol i gynnal dargyfeiriad.
- 3.1.7 Bydd rhywfaint o newid tymor byr yn yr awyrgylch i'r llwybrau troed o amgylch y safle o ganlyniad i weithgareddau adeiladu a allai atal pobl rhag eu defnyddio trwy gydol y cyfnod adeiladu.

### 3.2 Mynediad i'r Cyhoedd - Cerbydau

- 3.2.1 Mae mynediad anffurfiol i gerbydau i'r safle trwy drac presennol i'r gogledd o Old Smokey sy'n cysylltu â Heol Blaenllechau. Caiff hwn ei defnyddio i gael mynediad at ardal barcio anffurfiol ar y safle a bydd modd i'r trefniadau yma barhau ar ôl i'r cynllun gael ei gwblhau. Fodd bynnag, mae hefyd yn bwynt mynediad i bobl sy'n defnyddio beiciau modur 'sgramblwr' i reidio ar draws y safle gan gynnwys ar Old Smokey. Mae difrod wedi ei achosi i wyneb Old Smokey a'r tir o'i amgylch wrth i'r cerbydau yma dorri'r wyneb uchaf gan achosi rhychau. Mae'r gweithgaredd hefyd yn wrthgymdeithasol gan ei fod yn tarfu ar bobl sy'n mwynhau'r amgylchedd tawel ar droed neu ar feic.
- 3.2.2 Rhoddwyd ystyriaeth i fesurau i reoli mynediad i feiciau modur, fodd bynnag, mae lleoliad a natur agored y tir yn golygu bod hyn yn anymarferol. Fodd bynnag, mae



mesurau wedi'u rhoi ar waith i sicrhau bod dyluniad y ddau safle a'r gwaith draenio cysylltiedig yn gadarn, ac mae bwriad i gynnal ymweliadau monitro rheolaidd i ganfod unrhyw ddifrod a allai niweidio'r safle o ran draenio neu adfywio.

### 3.3 Cynnal a Chadw a Monitro

- 3.3.1 Bydd angen mynediad ar gyfer cerbydau a phersonél cynnal a chadw ar ôl cwblhau'r gwaith yn y safle rhoddwr a'r safle derbynnydd. Ar gyfer y safle derbynnydd bydd hwn yn cael ei ddarparu trwy'r fynedfa bresennol oddi ar Heol Blaenllechau yn union i'r gogledd o Old Smokey. Bydd mynediad ar gael i'r safle rhoddwr trwy'r fynedfa eilaidd, y mae cynnig ei gwella yn rhan o'r gwaith. Bydd gathiau ar y fynedfa eilaidd yma gan mai dim ond at ddibenion monitro a chynnal a chadw y mae bwriad ei defnyddio.

### 3.4 Cludiant

- 3.4.1 Roedd lleihau effaith y datblygiad ar y gymuned a'r rhwydwaith ffyrdd lleol yn ystyriaeth allweddol yn ystod proses dylunio'r cynnig. Yn dilyn y profiad a gafwyd yn ystod gweithgareddau yng Ngham 2/3, a drosglwyddodd lawer iawn o falurion tirlithriad o waelod y cwm i safleoedd storio dros dro ychydig bellter i ffwrdd ar hyd llawr y cwm, dangoswyd bod manteision i'w cael o gynnwys symudiadau cerbydau ar raddfa fawr i mewn i'r ardal ddatblygu.
- 3.4.2 Fydd dim deunydd o waith cloddio Tomen Uchaf Llanwynno yng Ngham 4 yn cael ei gludo oddi ar y safle.
- 3.4.3 Cafodd y penderfyniad yma'i wneud yn gynnar yn y broses ddylunio pan benderfynwyd ar natur y deunydd, dyluniad sylfaenol y cynllun a lleoliad y safle rhoddwr. Cafodd Datganiad Trafnidiaeth ei gomisiynu i asesu effaith y trefniadau arfaethedig ar gyfer mynediad a thrafnidiaeth, ac mae hwn wedi'i gynnwys yn y pecyn cais fel atodiad i'r Datganiad Amgylcheddol.
- 3.4.4 Mae'r adroddiad yn ystyried pob agwedd ar y cynllun a'r angen am fynediad a thrafnidiaeth. Llwyddodd i gadarnhau'r rhesymeg dros y penderfyniad i gadw'r holl ddeunydd ar y safle, yn enwedig o ystyried natur gul yr unig ffordd gyhoeddus (Heol Blaenllechau) sy'n rhedeg heibio'r safle, pwyntiau pinsio a gwasgu amrywiol yn y rhwydwaith sy'n arwain at y safle, a natur achlysurol y tagfeydd ar yr A4233 yng Nglynrhedynog ac o'i amgylch.
- 3.4.5 Daw'r adroddiad i'r casgliad bod *"lefel effaith y traffig a gynhyrchir gan y cais yma'n ddibwys. Fydd dim effeithiau sylweddol ar draffig lleol yng ngham adeiladu a cham gweithredol y cynnig."* (tudalen 11)
- 3.4.6 Mae'n werth nodi rhai materion manwl o'r adroddiad. Yn gyntaf, amcangyfrifir bod angen 16,000 o deithiau trwm ar gerbydau i drosglwyddo'r deunydd o'r safle rhoddwr i'r safle derbynnydd. Mae hyn yn cadarnhau'r budd i'r ardal trwy gyfyngu'r rhain i o fewn y safle ei hun.
- 3.4.7 Yn ail, bydd lefel y teithiau rheolaidd i'r safle oddeutu 20 y dydd ar gyfartaledd am y cyfnod gweithredu disgwyliedig o 6 mis. Mae disgwyl i'r rhain fod yn gerbydau staff a faniau a fydd yn gallu negodi'r llwybr mwyaf uniongyrchol i'r safle o'r A4233 yng Nglynrhedynog ar hyd Heol yr Orsaf tuag at Heol Blaenllechau. Does dim effeithiau andwyol i'w rhagweld o'r lefel uwch yma o symudiadau cerbydau ar y rhwydwaith ffyrdd. Mae'r lefel yma'n senario achos gwaethaf, a bydd cyfleoedd yn cael eu cymryd i annog staff i deithio gyda'i gilydd lle bo hynny'n bosibl. Fodd bynnag, mae disgwyl i'r holl deithio yma ddigwydd mewn cerbydau modur; o ystyried lleoliad y safle a'r pellter o ddulliau trafndiaeth gyhoeddus, mae defnyddio dulliau mwy cynaliadwy yn anymarferol.
- 3.4.8 Yn olaf, bydd yn ofynnol cludo'r offer trwm a'r cerbydau sydd eu hangen i gloddio'r deunydd i'r safle. Fel arfer, bydd angen cludo'r cerbydau hyn ar lwythwr isel, sef cerbyd

na fyddai'n gallu negodi'r llwybr uniongyrchol i'r safle o Lynrhedynog. Felly, cafodd llwybr amgen ei ymchwilio a'i drafod gyda CNC. Bydd hwn yn defnyddio rhywfaint o'u llwybrau coedwig ac yn mynd â cherbydau o'r A4233 i'r gogledd o Faerdy ar hyd llwybrau'r goedwig i bwynt o fewn 250 metr i'r mynediad presennol i'r safle datblygu.

- 3.4.9 Er mwyn hwyluso'r symudiadau yma, bydd angen mân newidiadau dros dro i ymyl palmant y safle datblygu wrth fynedfa'r safle o Heol Blaenllechau. Bydd wyneb mynediad y llwybr hefyd yn cael ei wneud yn fwy llydan a'i wella.
- 3.4.10 Bydd cyfleusterau golchi olwynion hefyd yn cael eu darparu wrth y fynedfa yma a fydd, ynghyd â mesurau tebyg eraill, yn cael eu disgrifio'n llawn yn y Cynllun Rheoli Amgylcheddol Gwaith Adeiladu.
- 3.4.11 Bydd manylion yr holl drefniadau ar gyfer cludiadau a symudiadau cerbydau i'r safle ac oddi yno, gan gynnwys y llwybro, yn cael ei ddarparu mewn Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu y bydd y contractwr a ddewiswyd yn cytuno arno ac yn ei roi ar waith.

## 4. Adolygu a Gwerthuso'r Polisi Cynllunio

### 4.1 Introduction

4.1.1 Gwneir penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn unol â'r polisi cynllun datblygu lleol oni bai bod ystyriaethau perthnasol sy'n nodi fel arall; felly, mae'r adran yma'n trafod sut mae'r cynnig wedi'i werthuso yn erbyn polisi cynllunio cenedlaethol a lleol. Mae sylwebaeth ychwanegol wedi'i ddarparu yn y Datganiad Amgylcheddol ar bolisi a chanllawiau cenedlaethol nad ydyn nhw'n rhai sy'n ymwneud â chynllunio sy'n berthnasol i'r meysydd pwnc unigol.

### 4.2 Hanes Cynllunio

4.2.1 Does dim cofnodion o unrhyw geisiadau cynllunio wedi'u cofrestru i safle'r cais yn ystod y 10 mlynedd diwethaf.

### 4.3 Adolygiad o'r Polisi Cynllunio Cenedlaethol

4.3.1 Ystyrir bod polisi cynllunio ar lefel genedlaethol sy'n berthnasol i'r cais yma'n cynnwys y dogfennau canlynol, sy'n ystyriaethau perthnasol y mae'n rhaid eu hystyried lle maen nhw'n berthnasol i'r cais cynllunio:

- Polisi Cynllunio Cymru - Rhifyn 11 (Llywodraeth Cymru, Chwefror 2021);
- Nodyn Cyngor Technegol 5: Cynllunio a Chadwraeth Natur (Llywodraeth Cymru, 2009);
- Nodyn Cyngor Technegol 11: Cynllunio Sŵn (Llywodraeth Cymru, 1997);
- Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl Llifogydd (Llywodraeth Cymru, 2004);
- Nodyn Cyngor Technegol 21: Gwastraff (Llywodraeth Cymru, 2014);
- Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol (Llywodraeth Cymru, 2017).

4.3.2 Mae Polisi Cynllunio Cymru (PPW) yn darparu polisïau cynllunio defnydd tir cyffredinol Llywodraeth Cymru. Caiff ei ategu gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol a Chylchlythyrau Llywodraeth Cymru. Gyda'i gilydd mae'r dogfennau yma'n darparu'r fframwaith ar gyfer datblygu a gweithredu'r polisi cynllunio lleol a rheoli datblygiadau sy'n cael ei drafod ymhellach yn yr adran yma.

4.3.3 Mae'n nodi mai amcan Polisi Cynllunio Cymru yw "*sicrhau bod y system gynllunio yn cyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy ac yn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru*"(para. 1.2).

4.3.4 Mae egwyddor datblygu cynaliadwy yn rhedeg trwy'r ddogfen i gyd ac mae'n pwysleisio y dylid cael "*rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy*" (para. 1.18) wrth wneud penderfyniadau ac yn derbyn y bydd hyn yn gydbwysedd o faterion yn ymwneud â chynaliadwyedd cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol.

4.3.5 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cydnabod bod "*iechyd a lles pobl a lleoedd, a'r angen i arafu'r argyfwng hinsawdd a'i effeithiau yn rhoi hwb ychwanegol am weithredu proactif trwy'r system gynllunio*" (para. 3.37).

4.3.6 Mae canlyniadau newid yn yr hinsawdd a'r angen i ddelio â chanlyniad Storm Dennis a'r tirlithriad a ddaeth yn sgil hyn wrth wraidd y cais yma. Bydd y cais yma'n delio â'r bygythiad a ddaw yn sgil y deunydd sy'n weddill ar safle'r domen ac yn cael gwared ar y perygl o'r deunydd yma sydd ar ben llechwedd y bryn yn llithro i lawr llethr y cwm.

### **Cerdded a beicio**

- 4.3.7 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn annog cerdded a beicio fel dulliau trafndiaeth cynaliadwy, gweithgareddau hamdden ac mae hefyd yn cydnabod eu bod nhw'n cyfrannu tuag at ffyrdd iachach o fyw. Bydd symud y mwyafrif o'r deunydd domen sy'n weddill i'r safle derbynnnydd yn caniatáu i lwybr beicio a llwybr troed anffurfiol a ddefnyddiwyd yn flaenorol yng ngwaelod y cwm gael eu hailagor i'r cyhoedd.

### Cadwraeth Natur a Choed

- 4.3.8 Mae amddiffyn rhywogaethau a chynefinoedd a hyrwyddo diddordebau cadwraeth natur yn gyffredinol yn themâu allweddol Polisi Cynllunio Cymru. Caiff hyn ei atgyfnerthu gan ganllawiau ychwanegol sydd wedi'i ddarparu yn Nodyn Cyngor Technegol 5. Mae'r cais yn nodi'n fanwl sut mae'r buddiannau yma wedi'u hamddiffyn trwy ddatblygiad a gweithrediad methodoleg ecolegol a strategaethau amddiffyn eraill o fewn y Datganiad Amgylcheddol. Mae rhan o safle'r cais o fewn Safle o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur anstatudol ac mae'r Polisi Cynllunio Cymru yn cydnabod "*Dylid gwahaniaethu rhwng arwyddocâd cymharol y dynodiad o fewn yr hierarchaeth wrth ystyried faint o bwysigrwydd i'w roi i fuddiannau cadwraeth natur*" (para. 6.4.13).
- 4.3.9 Mae'r effaith ar goed yn ystyriaeth bwysig mewn unrhyw gais cynllunio a chaiff hyn ei amlygu ym Mholisi Cynllunio Cymru, sy'n nodi "*Lle ceir gwared ar goetir neu goed fel rhan o gynllun arfaethedig, bydd disgwyl i ddatblygwr blannu coed yn eu lle.*" (para. 6.4.25). Mae strategaeth i hyrwyddo'r adferiad mwyaf buddiol yn ecolegol ar gyfer y ddau safle wedi'i pharatoi a'i chytuno â rhanddeiliaid perthnasol. Dydy hyn ddim yn cynnwys ailblannu coed conwydd hunan-hadu sydd â gwerth ecolegol isel, i gymryd lle'r rhai a gollwyd yn rhan o'r datblygiad arfaethedig.
- 4.3.10 Fodd bynnag, bydd coed yn cael eu plannu i gymryd lle'r grŵp o goed bach o rywogaeth brodorol collddail a choeden bedwen fawr sydd i'w tynnu o'r safle rhoddr. Prif ffocws gwaith adfer y safle fydd ar adfywio naturiol ac felly, mae'r ardal o blannu newydd yn debygol o fod yn gyfyngedig i'r ardal sydd wedi'i gollu ynghyd ag ardal cyfadferol ychwanegol i'r gorllewin. O ran cydymffurfio â pholisi, dydy Polisi Cynllunio Cymru ddim yn ei gwneud hi'n ofyniad llwyr i ymgeiswyr amnewid coed sydd wedi'u colli, ac ystyrir bod y penderfyniad, yn rhannol, i beidio â gwneud hynny, wedi'i gyfiawnhau'n llawn. Mae modd gweld esboniad llawn o'r rhesymeg sy'n sail i'r dull yma yn y Datganiad Amgylcheddol.

### Dŵr Wyneb a Pherygl Llifogydd

- 4.3.11 Mae'r cynigion draenio ar gyfer dŵr wyneb yn cwrdd â gofynion Polisi Cynllunio Cymru ar gyfer cydymffurfio â systemau draenio cynaliadwy. Mae'r cynigion hefyd yn cydymffurfio â gofyniad Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 15 i beidio â chynyddu llifogydd mewn mannau eraill, a'r dull dilyniannol o lywio datblygiad i fwrdd o ardaloedd sydd â pherygl llifogydd. Mae'r defnydd tir yn cael ei ystyried yn 'Llai Bregus' o fewn cwrpas Nodyn Cyngor Technegol 15 ac mae'n briodol o ran ei dynodiad fel parth llifogydd.

### Ansawdd Aer a Sŵn

- 4.3.12 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr "*lleihau cysylltiad y boblogaeth gyffredinol â llygredd aer neu sŵn... lle mae'n ymarferol ac yn hyfyw gwneud hynny.*" (para. 6.7.4) ac yn benodol mewn cysylltiad â gweithgareddau adeiladu dros dro "*Lle bo'n briodol dylai... ofyn am gynllun rheoli gwaith adeiladu, sy'n rhoi sylw i atal llygredd, peiriannau swnllyd, oriau gwaith, mesurau lliniaru llwch a manylion hysbysu trigolion am risgiau dros dro.*" (para. 6.7.26). Mae sŵn ac ansawdd aer yn cael eu hystyried yn fanwl yn y Datganiad Amgylcheddol mewn penodau ar wahân sy'n cyflawni gofynion Polisi Cynllunio Cymru a gofynion Nodyn Cyngor Technegol 11: Sŵn. Roedd yr adran flaenorol yn crynhoi'r dull dylunio a fabwysiadwyd, a'r mesurau lliniaru a gynigiwyd i fynd i'r afael â'r ddau fater gan gynnwys gwaith paratoi a gweithredu'r Cynllun Rheoli Amgylcheddol Gwaith Adeiladu. Gyda mesurau lliniaru priodol ar waith, dydy'r naill fater yn cael eu hystyried yn rhwystrau posibl i ddatblygiad.

### Yr Amgylchedd Hanesyddol a Thirwedd

- 4.3.13 O ran yr amgylchedd hanesyddol mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi "*Rhaid i unrhyw*

*benderfyniadau sy'n cael eu gwneud drwy'r system gynllunio ystyried yn llawn beth fyddai'r effaith yn ei olygu i'r amgylchedd hanesyddol ac i arwyddocâd a gwerth treftadaeth asedau hanesyddol unigol a'u cyfraniad at gymeriad lle.*" (para. 6.1.9).

Ategir y dull yma gan ganllawiau manwl sydd wedi'u cynnwys yn Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol. Mae gofynion Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 24 wedi'u cyflawni trwy'r bennod ar Dreftadaeth Ddiwylliannol yn y Datganiad Amgylcheddol. Fel y crynhowyd yn yr adran flaenorol, er bod effaith ar y dirwedd hanesyddol, y gweddillion diwydiannol a lleoliad yr adeilad rhestredig, dydy'r effeithiau yma ddim yn sylweddol, neu mae modd eu lliniaru i lefelau derbyniol.

- 4.3.14 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn annog bod effeithiau ar y dirwedd yn cael eu hystyried yn rhan annatod o'r broses cynllunio datblygu er mwyn cadw a gwella eu rhinweddau. Mae'n nodi "*Mae holl dirweddau Cymru'n cael eu gwerthfawrogi am eu cyfraniad hanfodol at synnwyr o le, a dylai awdurdodau lleol warchod a gwella eu nodweddion arbennig, gan dalu sylw dyledus i'r manteision cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol maent yn eu darparu, a'u rôl o ran creu lleoedd sy'n cael eu gwerthfawrogi.*" (para. 6.3.3). Fel y trafodwyd yn yr adran flaenorol, roedd yr effeithiau gweledol o ran gwahanol elfennau'r cynnig wrth wraidd y broses ddylunio. Doedd dim modd lliniaru'r holl effeithiau gweledol ar gyfer datblygiad o'r raddfa yma, ond trwy'r broses ddylunio cawson nhw eu lleihau i lefelau derbyniol yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru.

#### **Mwynau a Lleihau Gwastraff**

- 4.3.15 Mae adrannau 5.12-14 o Bolisi Cynllunio Cymru yn disgrifio'r nodau tymor byr a thymor hir ar gyfer polisi cynllunio sy'n ymwneud â gwastraff a mwynau yng Nghymru ac fe'u cefnogir yn Nodyn Cyngor Technegol 21. Mae lleihau'r gwastraff a gynhyrchir o weithgaredd datblygu a lleihau echdynnu mwynau yn y dyfodol i angen hanfodol yn unig yn blanciau allweddol o'r ddogfen bolisi. Mae cyngor pellach, sy'n ymwneud yn benodol â dyddodion glo, ym mharagraff 5.10.17 sy'n nodi "*Nid oes angen diogelu adnoddau glo sylfaenol.*" Bydd y cais yn cwrdd â gofyniad polisi cenedlaethol yn y maes yma trwy leihau'r gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu trwy arfer gorau adeiladu yn dilyn y canllawiau sydd i'w darparu yn y Cynllun Rheoli Amgylcheddol Gwaith Adeiladu. Fydd unrhyw ddyddodion glo sy'n weddill sydd ddim yn peri niwed ddim yn cael eu 'diogelu' nac yn cael eu hamddiffyn yn rhan o'r cynllun, yn unol â'r polisi cenedlaethol.
- 4.3.16 Mae'r ystyriaeth o ddyddodion tywodfaen lleol wedi'i chynnwys yn yr adran nesaf ond ystyrir bod y cynllun yn hyn o beth yn cydymffurfio â Pholisi Cynllunio Cymru.

## **4.4 Adolygiad o'r Polisi Cynllunio Lleol**

- 4.4.1 Mae cynllun datblygu RhCT yn cynnwys Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf hyd at 2021 (CDLI). Cafodd y CDLI ei fabwysiadu ym mis Mawrth 2011 ac ar hyn o bryd mae'n sail ar gyfer gwneud penderfyniadau o ran rheoli datblygiadau yn y Fwrdeistref Sirol.
- 4.4.2 Mae'r CDLI yn dal i fod yn weithredol, fodd bynnag, mae adolygiad wedi dod i'r casgliad bod angen cynllun newydd, ac mae'r awdurdod wedi nodi amserlen ar gyfer ei llunio.
- 4.4.3 O ystyried bod y CDLI wedi'i fabwysiadu yn 2011, mae'n debygol o gynnwys polisiau a dyraniadau sydd ar eu hôl hi yn sgil digwyddiadau a/neu newidiadau dymunol o ran pwyslais. Dylid cydnabod yr achosion yma lle mae hyn yn berthnasol, fodd bynnag, gan fod gwaith llunio'r cynllun newydd yn y camau cynnar, ystyrir, gyda'r amod uchod, y dylid glynu wrth y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd wrth benderfynu ar y cais.
- 4.4.4 Mae'r awdurdod hefyd wedi llunio Canllawiau Cynllunio Atodol - Cadwraeth Natur (a

fabwysiadwyd yn 2011) sydd hefyd yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar y cais.

- 4.4.5 Mae'r testun a'r polisiâu mwyaf perthnasol sydd wedi'u cynnwys yn y CDLI wedi'u rhestru a'u hystyried isod.

#### **Amcanion y CDLI**

- 4.4.6 Yn gynwysedig yn rhestr amcanion y CDLI mae ceisio darparu gwell ansawdd bywyd trwy annog "*ffordd iach a diogel o fyw a hyrwyddo llesiant trwy wella mynediad i fannau gwyrdd yn y gogledd, ... a diogelu mannau hamdden ledled y Fwrdeistref Sirol.*" (Amcan 5 y CDLI).
- 4.4.7 Mae'r cais yn mynd i'r afael â'r amcan yma'n uniongyrchol trwy geisio gwella diogelwch preswylwyr ac ymwelwyr trwy gael gwared ar gyfran fawr o Domen Uchaf Llanwynno. O ganlyniad, bydd hyn hefyd yn caniatáu ailagor y llwybr troed a'r llwybr beicio yng ngwaelod y cwm a oedd yn boblogaidd yn flaenorol ac yn dileu'r bygythiad posibl i bobl, eiddo a seilwaith cyhoeddus hanfodol o dirlithriad pellach.

#### **Polisi Cwcis: Polisiâu Craidd: Polisi CS1 – Datblygiadau yn y Gogledd**

- 4.4.8 Mae Tylorstown a Glynrhedynog o fewn Ardal Strategaeth y Gogledd fel y'u diffinnir yn y CDLI ac mae'r polisi hwn yn ceisio hyrwyddo "*hygyrchedd trwy sicrhau buddsoddiad mewn... cerdded a beicio*" a "*mathau newydd o gyflogaeth yn y sectorau hamdden a thwristiaeth*". Bydd dileu'r risg o dirlithriad arall, fel y trafodwyd, yn galluogi ailagor y llwybr beicio yn ddiogel sy'n rhan o Rwydwaith Beicio Cenedlaethol Sustrans a'i hyrwyddo i bobl leol ac ymwelwyr.

#### **Polisiâu Maes Cyfan: Polisi AW 5 – Datblygiad newydd**

- 4.4.9 Mae'r polisi yma'n ceisio rheoli effaith cynigion ar amwynder a hygyrchedd lleol gan gyfeirio'n benodol at nifer o brofion i sicrhau nad ydyn nhw'n arwain at niwed annerbyniol. Mae Polisi AW 6 - Dylunio a Chreu Lleoedd hefyd yn cael ei ystyried yn berthnasol i'r ystyriaethau hyn. Mae'r profion mwyaf perthnasol ac ymateb yr ymgeisydd i bob un wedi'u rhestru isod.
- 4.4.10 Graddfa, ffurf a dyluniad - mae'r safle derbynnydd arfaethedig a fydd yn cael ei greu gan y deunydd wedi'i adleoli yn dirffurf sylweddol, ac mae ei raddfa yn golygu nad oes modd lliniaru ei effaith weledol yn llwyr. Cyfeiriwyd yn flaenorol at y penderfyniad dylunio i leoli'r holl ddeunydd mewn un safle. Mae lleoliad a siâp y tirffurf yn un y gallai fod wedi'i greu gan weithgareddau cloddio glo blaenorol yn hawdd. Cafodd ystyriaeth ofalus ei roi i leoliad y tirffurf i leihau'r effaith weledol y bydd yn ei chael ar olygfannau sensitif, yn enwedig o eiddo preswyl.
- 4.4.11 Mae'r Old Smokey yn nodwedd sy'n cael ei gydnabod yn eang yn y gymuned ac mae'n atgof blaenllaw o hanes diwydiant glo'r ardal. Mae'r tirffurf newydd yn eilradd i'r Old Smokey a gan y bydd yn bennaf wedi'i leoli i'r dwyrain o'r nodwedd, ni fydd yn tynnu sylw oddi wrth y prif olygfeydd ohono o Tylorstown.
- 4.4.12 Bydd cael gwared ar y deunydd o Domen Uchaf Llanwynno a'r gwaith i ehangu a gwella rhan o'r hen dramffordd yn cael effeithiau parhaol ar y dirwedd, ac i'r graddau hynny bydd yn cael effaith fach ar gymeriad yr ardal. Bydd gwaith adfer arfaethedig y safle rhoddwr i adlewyrchu proffil y llechwedd gyfagos a'i adfywio gyda'r un llystyfiant yn lliniaru'r effeithiau yma i lefelau sy'n is nag annerbyniol. Bydd y safle derbynnydd yn cael ei drin yn yr un modd o ran adfywio'r dirwedd ac aildyfu llystyfiant, a bydd hyn yn caniatáu iddo gydweddu â'r amgylchedd cyfagos.
- 4.4.13 Deiliaid cyfagos - bydd amwynder deiliaid eiddo preswyl a defnyddwyr y Ganolfan Hamdden yn Tylorstown yn profi effeithiau mwyaf y datblygiad. Derbynnir y bydd rhywfaint o ymyrraeth weledol o'r cynnig yn amlwg yn enwedig yn ystod y cam adeiladu a cham adfywio'r dirwedd. Fel y disgrifiwyd uchod, mae lleoliad y derbynnydd wedi'i ddylunio i leihau ei effeithiau gweledol wrth edrych arno o Tylorstown, ond fydd dim modd osgoi effaith y gwaith ar Domen Uchaf Llanwynno a rhannau o'r hen

dramffordd.

- 4.4.14 Mae'r strydoedd yn Tylorstown wedi'u gosod yn bennaf mewn cyfres o linellau, yn gyfochrog â'r afon ac yn codi i fyny ochr orllewinol y cwm. Wrth i'r uchder gynyddu, mae'r golygfeydd o'r safle datblygu yn dod yn llai lletraws. Fodd bynnag, mae'r eiddo'n wynebu allan dros y cwm ac felly mae effaith elfennau unigol y cynllun yn cael eu lleihau wrth i'r golygfeydd cyffredinol ar draws y cwm ragori. Ystyrir bod y mesurau lliniaru arfaethedig sydd wedi'u hamlinellu yn y cais yn lleihau'r effaith weledol i lefelau derbyniol.
- 4.4.15 Mae sŵn ac ansawdd aer, gan gynnwys llwch, yn cael eu hystyried fel penodau ar wahân yn y Datganiad Amgylcheddol. Casgliad pob pennod yw bod modd lliniaru effeithiau'r ddwy elfen yma i lefelau derbyniol.
- 4.4.16 Bydd lefelau sŵn yn cael eu lleihau trwy ddefnyddio peiriannau modern sy'n symud y ddaear ac sy'n gweithredu ac yn cydymffurfio â'r safonau sŵn diweddaraf. Mae'r oriau gwaith hefyd wedi'u cyfyngu i oriau gwaith arferol. Mae lleihau faint o lwch sy'n cael ei gynhyrchu yn rhan bwysig o'r Cynllun Rheoli Amgylcheddol Gwaith Adeiladu, a bydd yn golygu bod y contractwr yn cyfyngu ar gyflymder cerbydau sy'n symud y deunydd fel nad oes gormod o lwch yn cael ei greu o gludiant ar hyd y ffordd gludo sydd heb ei selio. Mae'r pellter o'r gwaith hefyd yn golygu na fydd llygryddion cerbydau yn cael effaith andwyol ar ansawdd aer. Mae effaith y cynllun ar draffig hefyd wedi'i lleihau gan nad oes rhaid cludo unrhyw ran o'r deunydd ar y rhwydwaith ffyrdd cyhoeddus o'i amgylch, a thrwy hynny mae'n lleihau effaith y cynllun ar yr eiddo gerllaw a'r rhai yn y gymuned ehangach.
- 4.4.17 Hygyrchedd a theithio cynaliadwy - ar ôl ei gwblhau, bydd y cynllun yn caniatáu ailagor y llwybr troed a'r llwybr beicio (rhan o rwydwaith beicio Sustrans) yng ngwaelod y cwm a gafodd ei dorri yn sgil tirlithriad cynharach ac sydd ddim yn ddiogel i'w ailagor nes bod deunydd y domen wedi'i symud.

#### **Polisiâu Maes Cyfan: Polisi Maes Cyfan (AW) 8 – Diogelu a Gwella'r Amgylchedd Naturiol**

- 4.4.18 Mae'r polisi yma'n ceisio amddiffyn yr amgylchedd naturiol rhag datblygiad sydd ddim yn gynaliadwy. Roedd yn nodi nifer o brofion y bydd cynigion datblygu yn cael eu barnu yn eu herbyn. Bydd y rhain yn dderbyniol pan fydd y cynnig:
- "...ddim yn achosi niwed i nodweddion Safle o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC) ... oni bai bod modd dangos: -*
- a) Mae'r cynnig yn uniongyrchol angenrheidiol ar gyfer rheolaeth gadarnhaol o'r safle; neu*
  - b) Fyddai'r cynnig ddim yn cael effaith annerbyniol ar nodweddion y safle y mae wedi'i ddynodi ar ei gyfer; neu*
  - c) Fyddai hi ddim yn rhesymol lleoli'r datblygiad mewn man arall ac mae'n amlwg bod buddion y datblygiad arfaethedig yn gorbwysu gwerth cadwraeth natur y safle.*
- Ni fyddai unrhyw effaith annerbyniol ar nodweddion sydd o bwys i'r dirwedd neu o ran gwarchod natur, gan gynnwys rhwydweithiau ecolegol, ansawdd adnoddau naturiol fel aer, dŵr a phridd, a draeniad naturiol dŵr wyneb".*
- 4.4.19 Mae'r polisi'n mynnu ymhellach:
- "Bydd yn ofynnol i bob cynnig datblygu ... a allai effeithio ar rywogaethau gwarchoddedig a blaenoriaethol ddangos pa fesurau sy'n cael eu cynnig er mwyn amddiffyn a rheoli'r rhywogaeth a'r mesurau lliniaru i wneud yn iawn am yr effeithiau posibl. Rhaid i gynigion datblygu gynnwys arolygon a gwerthusiadau ecolegol priodol."*
- 4.4.20 Fel y manylwyd yn flaenorol yn Adran 2, mae pedwar SINC o fewn y safle datblygu neu'n agos ato. Mae amrywiaeth o gynefinoedd sydd wedi'u rhestru fel cynefinoedd â



blaenoriaeth o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 hefyd yn bresennol ar y safle, ac mae nifer o rywogaethau gwarchoddedig, gan gynnwys ystlumod, ymlusgiaid, madfalloedd cribog mawr ac adar bridio a gaeafu, o fewn ardal y safle ac o'i amgylch.

- 4.4.21 Cafodd yr holl effeithiau posibl ar y buddiannau cadwraeth natur yma'u hystyried wrth lunio'r Datganiad Amgylcheddol - mae pennod benodol ar Fioamrywiaeth a Chadwraeth Natur ynddo. Mae'r buddiannau yma hefyd wedi bod yn berthnasol wrth ystyried penodau eraill sy'n rhan o'r Datganiad Amgylcheddol, megis y penodau ar sŵn, yr amgylchedd dŵr, y pridd a'r dirwedd ynghyd â dogfennau ategol eraill sy'n rhan o'r cais fel yr Arolwg Coed.
- 4.4.22 Cafodd arolygon helaeth eu cynnal i nodi natur, maint a pha mor agored i niwed mae cynefinoedd a rhywogaethau gwarchoddedig. Roedd y canfyddiadau yn llywio dyluniad y cynllun, y mesurau lliniaru arfaethedig a, lle bo hynny'n bosibl, yn nodi unrhyw

- gyfleoedd i wella y gallai'r cynllun eu cynnig.
- 4.4.23 O ran effeithiau, bydd rhai effeithiau ar fuddiannau cadwraeth natur yn cael eu profi yng ngham adeiladu'r datblygiad. Fodd bynnag, bydd y mesurau lliniaru sy'n cael eu rheoli gan y Cynllun Rheoli Amgylcheddol Gwaith Adeiladu yn sicrhau y bydd unrhyw effeithiau gweddilliol hirdymor sylweddol yn sgil amseriad gweithrediadau, llygredd aer, dŵr neu bridd yn cael eu hosgoi. Felly, ystyrir na fydd unrhyw effeithiau andwyol hirdymor sylweddol o'r effeithiau yma'n digwydd yng ngham adeiladu'r cynllun.
- 4.4.24 Mae nifer o fesurau wedi'u hargymhell i wella'r safle ymhellach ar gyfer bioamrywiaeth, gan gynnwys Cynllun Rheoli Cynefin, creu o leiaf un hibernaculum o dan y ddaear ar gyfer ymlusgiaid a gosod blychau nythu ar gyfer cudyll coch a golfanod.
- 4.4.25 Bydd dilyn arfer gorau wrth dirlunio'r ddau safle sy'n cael eu heffeithio yn sicrhau y bydd bioamrywiaeth yr ardal yn cael ei gwella. Mae'r cynefinoedd gwerthfawr presennol wedi'u lleoli ar y pridd tenau iawn sy'n brin o faetholion. Y pridd bas, sy'n brin o faetholion, yw'r ffactor allweddol ar gyfer annog bioamrywiaeth, gan ei fod yn caniatáu i amrywiaeth fawr o blanhigion gytreffu, ffynnu ac atal dominyddiaeth gan ychydig o rywogaethau glaswellt. Mae'n allweddol ail-ddefnyddio priddoedd/isbriddoedd sy'n brin o faetholion er mwyn efelychu amodau amrywiaeth pridd y pwll glo.
- 4.4.26 Bydd felly'n fuddiol tynnu'r pridd tenau presennol a'r llystyfiant/clawdd hadau cysylltiedig a'u hail-ddefnyddio 'i wisgo' yr ardaloedd sy'n cael eu hadfer, lle bo hynny'n bosibl. Caniatáu'r llystyfiant naturiol yma ac osgoi mewnfario priddoedd sy'n llawn maetholion neu unrhyw wrteithwyr ar gyfer adfywio'n naturiol yw'r prif ddull lliniaru ar gyfer y prosiect.
- 4.4.27 Bydd y dull yma'n arwain at amrywiaeth uchel o ficrohinsoddau, ac yn dilyn hynny bydd amrywiaeth o gynefinoedd yn adfywio a bydd hyn yn fuddiol i werth ecolegol y safle.
- 4.4.28 Mae'r dull yma wedi'i ystyried a'i lunio'n ofalus yn dilyn cyngor manwl gan randdeiliaid allweddol, ac mewn ymgynghoriad â nhw, gan gynnwys Ecolegydd y Sir. Mae'r dull yma hefyd yn cyfyngu ar faint o goed sydd i'w plannu i gymryd lle'r rhai fydd yn cael eu colli. Ni chynigir ailblannu coed i gymryd lle'r coed conwydd hunan-hadu ag amwynder isel y bydd angen eu tynnu o'r safle derbynnydd. Fodd bynnag, cynigir plannu coed newydd i wneud iawn am golli grŵp o goed collddail rhywogaethau brodorol mewn rhan fach is o'r safle rhoddwr. Bydd rhywogaethau tebyg yn cymryd lle'r coed a gollwyd ar draws yr ardal y tyfodd y grŵp gwreiddiol arni, ynghyd ag ardal cyfadferol ychwanegol i'r gorllewin, ychydig y tu hwnt i ffin y domen.
- 4.4.29 Bydd Cynllun Ôl-ofal pum mlynedd ar waith i fonitro sefydliad y cynefinoedd sydd wedi'u hadfer a'r adfywiad naturiol.
- 4.4.30 O ran bodloni gofynion y polisi yma, ystyrir bod y cais yn dderbyniol gan ei fod yn bodloni prawf "b" gan na fyddai unrhyw niwed annerbyniol yn cael ei achosi. Mae rhesymeg gyffredinol y prosiect i ddiogelu pobl, yr amgylchedd ac eiddo trwy adleoli'r deunydd o Domen Uchaf Llanwynno hefyd yn cael ei ystyried yn gyfiawnhad dros fodloni prawf "c", gan fod buddion y cynllun wedi'u pwysoli'n sylweddol o'i blaid, yn enwedig gan ei bod yn amlwg bod dim niwed sylweddol i fuddiannau cadwraeth natur a byddai unrhyw leoliad arall wedi achosi niwed i fuddiannau eraill.
- 4.4.31 Fel y trafodwyd, mae mesurau helaeth wedi'u cynnig yn rhan o'r cais i ddiogelu'r nodweddion y cyfeirir atyn nhw yn ail ran y polisi Mae graddfa'r effaith ar y SINC o'i chymharu â maint y cwm sydd â llystyfiant naturiol yn fach, a thrwy hynny mae'n lleihau'r effaith gyffredinol.
- 4.4.32 Mae effeithiau ar y dirwedd, er bod y rhain yn cael eu lleihau trwy fesurau rheoli safle gofalus, yn anochel yn ystod y gwaith adeiladu. Daw'r Datganiad Amgylcheddol i'r casgliad na fydd unrhyw niwed sylweddol yn cael ei achosi ar ôl cwblhau'r datblygiad a'r mesurau lliniaru arfaethedig ar gyfer tirlunio ac adfywio'r safle. Gwneir yr un

canfyddiad mewn perthynas ag effeithiau aer a phridd.

- 4.4.33 O ran trefniadau draenio'r safle, mae'r strategaeth ddraenio a'r dyluniad arfaethedig yn gwella'r sefyllfa bresennol. Cafodd pob agwedd ar y datblygiad eu hystyried a manteisiwyd ar bob cyfle i wella buddiannau cadwraeth natur a bioamrywiaeth (gweler yr is-adran nesaf am faterion perygl llifogydd).
- 4.4.34 Cydymffurfir â rhan olaf y polisi y cyfeirir ato uchod hefyd trwy gynnal yr holl arolygon gofynnol o ran cynefinoedd a rhywogaethau.

**Polisiâu Maes Cyfan: Polisi AW 10 – Diogelu'r Amgylchedd ac Iechyd y Cyhoedd**

- 4.4.35 Mae'r polisi yma'n atgyfnerthu, o fewn cyd-destun iechyd y cyhoedd, rai o'r materion sydd wedi'u trafod eisoes mewn perthynas â'r polisiâu hynny sydd wedi'u hystyried eisoes uchod. Does dim angen ailadrodd yr arfarniad o'r materion hyn yma, ond yn hytrach nodi mai'r agweddau sydd eisoes wedi'u cynnwys a'u rhestru yn y polisi yma yw - llygredd aer (llwch) a llygredd sŵn. Mae'r agweddau sy'n weddill o'r polisi sy'n berthnasol i'r cais yn cael eu trafod isod.
- 4.4.36 Nwy - does dim problemau hysbys gyda phresenoldeb nwy o'r pwll glo, fel yr adroddwyd yn yr Asesiad Risg Mwyngloddio Glo sydd ynghlwm wrth y Datganiad Amgylcheddol.
- 4.4.37 Bydd tirlfurf y safle derbynnydd wedi'i gywasgu'n dda a bydd diraddiant araf iawn y cynnwys glo isel yn arwain at gronni carbon deuocsid. Fodd bynnag, fyddai dim potensial gan hyn i lifo a byddai'n gwasgaru i'r aer yn ddiogel yn yr un modd ag sy'n wir am yr ardaloedd helaeth o domenni pwll glo sydd eisoes yn bodoli ar hyd y cwm.
- 4.4.38 Llygredd dŵr - mae'r risg y bydd metelau sy'n bresennol yn y deunydd domen ar hyn o bryd yn symud, ynghyd â digwyddiadau llygredd cemegol posibl o gerbydau a gwaith adeiladu a allai effeithio'n andwyol ar gyrsiau dŵr a dŵr daear, yn cael eu hystyried ym mhennod y Datganiad Amgylcheddol ar amgylchedd dŵr.
- 4.4.39 Bydd mesurau atal llygredd yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Rheoli Amgylcheddol Gwaith Adeiladu ac yn cael eu defnyddio ar draws y safle i atal unrhyw ddigwyddiadau llygredd yn ystod y gwaith adeiladu. Bydd mesurau penodol yn cael eu cynnig yn ystod gwaith cloddio a thrin deunydd y domen. Bydd capio arfaethedig deunydd y pwll glo gydag uwchbridd sydd wedi'i blannu â llystyfiant ac integreiddio pantiau sydd wedi'u plannu â llystyfiant yn y rhwydwaith draenio hefyd yn lleihau'r risg y bydd y deunydd o'r domen yn symud. Bydd y Cynllun Rheoli Amgylcheddol Gwaith Adeiladu hefyd yn cynnwys mesurau i reoli draeniad a pherygl llifogydd dŵr wyneb yn ystod y gwaith adeiladu.
- 4.4.40 Bydd effeithiau buddiol yn deillio o gynyddu hyd pellter y llwybr rhwng ffynhonnell deunydd y pwll glo ac Afon Rhondda Fach, trwy symud y deunydd ymhellach o'r cwrs dŵr.
- 4.4.41 Mae lleihau'r risg o ddigwyddiadau pellach o dirlithriad yn dod ag effeithiau buddiol pellach trwy atal yr effeithiau niweidiol ar ddŵr neu ansawdd geomorffolegol o'r deunydd yma rhag mynd yn uniongyrchol i'r cwrs dŵr.
- 4.4.42 Bydd gwaith monitro dŵr daear yn cael ei gynnal yn barhaus yn ystod y gwaith adeiladu i ganfod unrhyw newidiadau sylweddol o ran lefelau. Bydd gwaith samplo yn cael ei gynnal ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau hefyd i fonitro'r lefelau yma.
- 4.4.43 Halogiad - mae'r Adroddiad Astudiaeth Ffynonellau Rhagarweiniol sydd wedi'i atodi i'r Datganiad Amgylcheddol yn dod i'r casgliad bod y risg o'r deunydd safle presennol yn isel ar y cyfan. Cafodd y mater o dir halogedig ei ddiystyru yn asesiad y Datganiad Amgylcheddol oherwydd statws lled anadweithiol y creigiau crai a'r siâl llenwi wedi'u cloddi sy'n ffurfio cyfansoddion gweddill Tomen Uchaf Llanwynno.
- 4.4.44 Ansefydlogrwydd tir - prif nod y prosiect yn amlwg yw gwella sefydlogrwydd y safle

rhoddwr, a does dim problemau gweddilliol i'w rhagweld yn yr ardal yma o ganlyniad i'r gwaith. Ar y safle derbynnwyd, fel y trafodwyd yn Adran 2 yr adroddiad yma, mae sefydlogrwydd y tir y bydd y maint gofynnol o ddeunydd yn cael ei dyddodi arno wedi'i ystyried yn y dyluniad, ynghyd â nodweddion cysylltiedig fel draenio. Bydd y deunydd yn cael ei roi ar fan gwastad o graig gadarn iawn sydd heb ddŵr daear. Mae ei leoliad yn ddigon pell i ffwrdd o Old Smokey na fydd ganddo unrhyw ddylanwad ar sefydlogrwydd y nodwedd honno.

- 4.4.45 Llifogydd - Cafodd perygl llifogydd ei asesu yn y Datganiad Amgylcheddol a chanfu fod y risg yn a bod dim angen llunio Asesiad Canlyniadau Llifogydd. Dangosodd yr asesiad hefyd na fydd y datblygiad yn cynyddu perygl llifogydd mewn mannau eraill. Er na fyddai'r safle rhoddwr mewn perygl o lifogydd, byddai'r datblygiad yn cael ei ystyried yn ddefnydd tir 'Llai Agored i Niwed' beth bynnag o dan feini prawf Nodyn Cyngor Technegol 15 ac felly'n amlwg yn briodol i'r lleoliad.

**Polisiâu Maes Cyfan: Polisi AW 14 - Diogelu Mwynau**

- 4.4.46 Er bod cyfyngiadau sylweddol o ran echdynnu mwynau, mae'r polisi yma'n nodi meysydd lle "*Bydd adnoddau Tywodfaen, fel y dangosir ar y map cynigion, yn cael eu diogelu rhag datblygu.*" O ran y cais yma mae llain gul o'r safle datblygu yn rhannau isaf y cwm, i'r de o'r safle rhoddwr, yn dod o fewn yr ardal ddiogelu yma.
- 4.4.47 Mae paragraff 5.90 yn egluro'r polisi ymhellach trwy nodi "*Mae datblygiadau a defnyddiau tir parhaol a fyddai'n cael eu hystyried yn anaddas o fewn yr ardal ddiogelu yn cynnwys datblygiadau preswyl, ysbytai ac ysgolion, neu lle dylid disgwyl safon dderbyniol o amwynder.*" O'r disgrifiad yma mae'n amlwg mai bwriad y polisi yw amddiffyn yr ardaloedd a ddiogelir rhag datblygiad adeiledig, yn enwedig o'r math y byddai'n arwain at golled sylweddol o amwynder i ddefnyddwyr pe bai'r dyddodion mwynau yn cael eu tynnu wedi hynny.
- 4.4.48 Mae cynnig y cais yma y tu allan i'r categori datblygu hwn ac ar ôl ei gwblhau byddai dim byd yn niweidio'r gwaith dilynol o echdynnu'r dyddodion tywodfaen sy'n weddill. Felly, ystyrir bod y cais yn cydymffurfio â'r polisi yma.

**Polisiâu Maes Strategaeth: Polisi NSA 23 - Gwelliannau i'r Rhwydwaith Beicio**

- 4.4.49 Mae'r polisi yma'n hyrwyddo ymestyn, gwella a chodi gwerth y rhwydwaith presennol o lwybrau beicio. Mae'n tynnu sylw penodol at y llwybr o Bont-y-gwaith i Faerdy a fyddai'n mynd trwy Tylorstown - a honno'n flaenoriaeth.
- 4.4.50 Fel y trafodwyd mewn man arall, mae buddion ychwanegol i'r cynllun yma - byddai'n caniatáu ailagor y llwybr presennol ar hyd yr hen reilffordd, a gafodd ei gau yn wreiddiol yn dilyn y tirlithriad ac a fydd yn parhau ar gau nes bydd y gwaith o dynnu deunydd y domen sy'n weddill wedi'i gwblhau.

**Polisiâu Maes Strategaeth: Polisi NSA 27 - Cynlluniau Adfer Tir**

- 4.4.51 Mae'r polisi yma'n hyrwyddo cyfres o gynlluniau adfer tir posib. Un o'r rhai sydd wedi'u nodi yw "*Cynllun adfer tir Tylorstown a Llanwynno*".
- 4.4.52 Mae'r rhesymeg dros y polisi yn nodi "*safleoedd sydd angen eu trin a lle mae angen cynlluniau adfer tir i sicrhau naill ai sefydlogrwydd tymor hir y tir neu i baratoi'r tir ar gyfer datblygwyr y dyfodol*" (para. 6.101). Mae'n cadarnhau ymhellach "*Bydd y cynlluniau a nodwyd ym Mholisi NSA 27 yn sail ar gyfer cynlluniau adfer tir*" (para. 6.102).
- 4.4.53 Mae'r cais yma'n ymwneud â Thomen Uchaf Llanwynno a Thomen Tylorstown ac o ystyried natur y cynnig mae'n cyfrannu'n gadarnhaol at y polisi yma. Mae'r asesiad o Domen Uchaf Llanwynno yn dangos yn glir bod angen cymryd camau adfer i sicrhau ei sefydlogrwydd a'i ddiogelwch yn y tymor hir.

## 5. Casgliad

### 5.1 Yr Angen am y Datblygiad

- 5.1.1 Ystyrir bod buddion clir a sylweddol i'r cyhoedd yn deillio o'r datblygiad arfaethedig. Roedd effeithiau dinistriol y tirlithriad ar gyfran fawr o Domen Uchaf Llanwynno yn dilyn Storm Dennis yn enghraifft amlwg o'r canlyniadau sy'n bosibl o adael y deunydd sy'n weddill yn ei le.

### 5.2 Ystyriaethau Perthnasol

- 5.2.1 Mae'r holl ystyriaethau o ran dylunio, mynediad ac ystyriaethau perthnasol eraill yn cael eu trafod yn yr adroddiad yma ac yn fanylach yn y Datganiad Amgylcheddol a dogfennau eraill sy'n cyd-fynd. Trwy ddylunio'n ofalus mae'r materion a'r effeithiau negyddol posibl a nodwyd wedi'u lliniaru cyn belled ag y bo modd.
- 5.2.2 Does dim effeithiau ar safleoedd gwarchoddedig cenedlaethol nac Ewropeaidd a bydd y mesurau lliniaru arfaethedig yn sicrhau nad oes unrhyw effaith ar rywogaethau gwarchoddedig. Cydnabyddir yr effaith gychwynnol ar y SINC lleol a ddynodwyd, fodd bynnag, mae maint cymharol fach y niwed a achoswyd wedi'i gydbwyso yn erbyn y buddion a ddaw yn sgil y cynllun a'r hyn a ystyrir yn niwed llawer mwy sylweddol a allai ddeillio o beidio â rhoi'r cynllun ar waith.
- 5.2.3 Cafodd cyfleoedd eu harchwilio a'u cynnig yn rhan o'r broses ddylunio, i wella, er enghraifft, y cyfraniad at ffoamrywiaeth y mae'r safle'n ei wneud.
- 5.2.4 Ystyrir nad oes unrhyw faterion cynllunio sylfaenol heb eu datrys a fyddai'n atal cymeradwyaeth.
- 5.2.5 At hynny, mae cymorth cyffredinol a phenodol gan y cynllun o ran y polisi cynllunio a'r buddion y byddai'n eu cynnig ar lefel genedlaethol a lleol, fel y dangosir yn yr arfarniad polisi cynllunio.
- 5.2.6 Felly, ystyrir bod yr ymgeisydd wedi ystyried yr holl faterion cynllunio allweddol a godwyd gan y cynllun, bod y cynnig a gyflwynwyd yn cydymffurfio â'r polisi cynllunio cenedlaethol a lleol a bod sylw wedi cael ei roi i effeithiau amgylcheddol ac effeithiau eraill i lefelau derbyniol.

**Capita Property and Infrastructure Ltd**

St David's House  
Pascal Close  
St Mellons  
Cardiff  
CF3 0LW

Tel +44 (0) 29 2080 3500  
Fax+44 (0) 29 2036 6199

[www.capita.co.uk](http://www.capita.co.uk)